**WPMC(16)12**

## PWYLLGOR MONITRO RHAGLENNI CYMRU

## CRONFEYDD STRWYTHUROL A BUDDSODDI EWROPEAIDD 2014–2020

**Dyddiad:** 2 Rhagfyr 2016

**Amser:** 9.30am

**Lleoliad:** Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Merthyr Tudful

## AGENDA

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1. | Croeso ac ymddiheuriadau | 09:30 - 09:35 | |
| 2. | Cofnodion cyfarfod mis Medi, camau gweithredu a materion eraill sy'n codi | 09:35 - 09:40 | WPMC(16)M12 |
| 3. | Diweddariad ar Gynnydd Cronfeydd ESF, gan gynnwys datblygiad portffolio<br>I gynnwys: | 09:40 - 10:00 | |
| | (a) Rhaglen Datblygu Gwledig Llywodraeth Cymru | 10:00 - 10:25 | WPMC(16)81 |
| | (b) Rhaglenni ERDF | 10:25 - 10:50 | WPMC(16)82 |
| | (c) Rhaglenni ESF | 10.50 - 11:15 | WPMC(16)83 |
| 4. | Rhaglen addasiad cyllid strwythurol | 11:15 – 11.25 | WPMC(16)84 |
| | *****Egwyl 11:25am – 11:35am***** | | |
| 5. | Ddiweddariad ar RDP | 11:35 – 11:45 | |
| 6. | Newidiadau i Feini Prawf Dethol y Cynllun Datblygu Gwledig | 11:45 – 11:55 | WPMC(16)85 |
| 7. | Angen cytundeb: Gweithgareddau ERDF y tu allan i'r ardal | 11:55 – 12:15 | WPMC(16)86 |
| 8. | Strategaeth Monitro a Gwerthuso - Y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed | 12:15 – 12:20 | WPMC(16)87 |
| 9. | Hen cynllun datblygu gweldig RDP | 12:20 – 12:40 | |
| 10. | Trefniadau Pontio'r UE | 12:40 – 13:40 | |
| 11. | Unrhyw Fater Arall | 13:40 – 13:45 | |

Papur i nodi: Themâu Trawsbynciol: Adroddiad Blynyddol ar Drechu Tlodi WPMC(16)88

**Cinio 13:45 – 14:15**

# CRONFEYDD STRWYTHUROL A BUDDSODDI EWROPEAIDD 2014–2020
# PWYLLGOR MONITRO RHAGLENNI CYMRU

**Dydd Gwener 9 Medi 2016**
**Llywodraeth Cymru, Merthyr Tudful**

**Nodiadau Cyfarfod EITEM**

**1: Croeso ac ymddiheuriadau**

(d) Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau a dywedodd y bydd Guus Muijzers, DG REGIO, yn mynd yn gyfrifol am raglenni ERDF Cymru fel Swyddog Desg y DU yn lle Kristina Kuzmonova.

(e) Rhestrir y bobl a oedd yn bresennol ac ymddiheuriadau yn **Atodiad A.**

**EITEM 2: Cofnodion cyfarfodydd Chwefror a Gorffennaf, camau gweithredu a materion eraill a oedd yn codi**

(f) Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod ar 12 Chwefror a'r cyfarfod ar 8 Gorffennaf yn gofnod gwir a chywir. Nid oedd unrhyw faterion eraill yn codi.

**EITEM 3: Diweddariad ar Gynnydd Cronfeydd ESF, gan gynnwys datblygiad portffolio**

<u>Trosolwg o Gynnydd</u>

(g) Cyflwynodd Damien O'Brien drosolwg o gynnydd rhaglenni ers PMRh mis Chwefror:

- neilltuwyd 43% o Gronfeydd Strwythurol
- cymeradwywyd 49 o weithrediadau'r Cronfeydd Strwythurol (113 wedi'u cymeradwyo i gyd)
- 74 o weithrediadau ar y cam cynllunio busnes
- 40% o'r Cynllun Datblygu Gwledig wedi ei neilltuo
- 15 o gynlluniau'r Cynllun Datblygu Gwledig wedi'u lansio

(h) Amlinelliad o'r digwyddiadau o bwys ers PMRh mis Chwefror:

- canlyniad refferendwm yr UE a chyfarfod eithriadol y PMRh ar 8 Gorffennaf.
- Mae'r broses o gau rhaglenni 2007-2013 yn mynd rhagddi'n dda. Mae pob prosiect wedi'i gau ac ar y trywydd iawn i gael eu defnyddio'n llawn.
- Dynodwyd WEFO fel yr Awdurdod Rheoli ac Ardystio ar gyfer Cronfeydd Strwythurol 2014-2020.
- Ymgyrch Diwrnod Ewrop 2016 lwyddiannus - arweiniodd ymarfer y cyfryngau cymdeithasol at bron i filiwn o safbwyntiau o negeseuon Diwrnod Ewrop/cronfeydd yr UE cadarnhaol gan dros 250,000 o bobl.

- Adroddiad terfynol Cenhadon Cyllido'r UE wedi'i gyhoeddi, Mawrth 2016.

- Roedd y gyfradd gynllunio a ddefnyddiwyd gan WEFO i drosi'r dyraniad o ran Rhaglenni yn sterling wedi cael ei hadolygu yng ngoleuni'r amrywiadau yn y gyfradd gyfnewid. Adlewyrchir y gyfradd wedi'i diweddaru o £1:€1.25 yn y papurau diweddaru.
- Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf grŵp llywio Rhwydwaith Gwledig Cymru ar 16 Mehefin.
- Cynhaliwyd digwyddiad Ffrydio'n fyw Perisgôp Cronfa Datblygu Cymunedau Gwledig ym mis Mai a chynhaliwyd digwyddiad cynllun LEADER ym mis Awst yn canolbwyntio ar Gydweithredu Trawsgenedlaethol a Rhyngdiriogaethol a Thema 5: Manteisio ar Dechnoleg Ddigidol.
- O ran ffenestri'r cynllun economaidd-gymdeithasol o dan y Cynllun Datblygu Gwledig, gwahoddwyd ymgeiswyr a fu'n llwyddiannus ar y cam Datganiadau o Ddiddordeb (EOI) i fynd ymlaen i'r cam nesaf a chyflwyno ceisiadau llawn.

(i) Cafodd yr Aelodau y newyddion diweddaraf hefyd am ddau ddatblygiad pwysig ers y PMRh diwethaf:

- Mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru wedi dechrau paratoi ar gyfer cynllunio trefniadau pontio'r UE. Mae Tasglu newydd, a sefydlwyd gan BEIS, wedi cael ei greu yn cynnwys holl Awdurdodau Rheoli'r DU ac mae Prif Weinidog Cymru wedi sefydlu is-bwyllgor newydd o'r Cabinet ar bontio Ewropeaidd a Grŵp Cynghori Ewropeaidd, yn cynnwys cynrychiolwyr busnes ac arbenigwyr eraill a fydd yn cynghori Llywodraeth Cymru.

- Mae gwarant gyllido ddiweddaraf Llywodraeth y DU yn cwmpasu ymrwymiadau strwythurol yr UE ac arian gwledig a fydd wedi cael eu llunio gan Lywodraeth Cymru cyn Datganiad Hydref eleni, gan gynnwys cyllid llawn ar gyfer y prosiectau dan gontract hynny sy'n parhau ar ôl i'r DU adael yr UE. Mae hefyd yn darparu gwarant debyg o fuddsoddiadau'r UE a wnaed drwy'r rhaglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd, fel Rhaglen Gydweithredu Iwerddon Cymru. Mae'r warant ar gyfer rhaglenni a reolir yn uniongyrchol, fel Horizon 2020, yn gwarantu ymrwymiadau cyllido a wneir tra'n bod yn parhau i fod yn yr UE. Byddai taliadau uniongyrchol PAC yn cael eu cwmpasu gan '2020'. Bydd Gweinidogion yn parhau i bwyso am 'warant lawn' yn cwmpasu'r holl wariant ar brosiectau a neilltuwyd hyd at yr adeg gadael. Fodd bynnag, mae'r ymrwymiad yn darparu rhywfaint o sicrwydd i fuddiolwyr yn y dyfodol.

(j) Ymhlith y blaenoriaethau allweddol ar gyfer y cyfnod i ddod mae'r canlynol:

- Sicrhau'r lefelau ymrwymo mwyaf ar draws pob rhaglen a pharhau â 'busnes fel arfer'.
- Cyflwyno'r addasiad cyntaf o'r Cynllun Datblygu Gwledig i'r CE.
- Cwblhau'r broses o gau rhaglenni 2007-2013.

- Digwyddiad blynyddol WEFO, 20 Hydref - bydd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol yn cyflwyno prif anerchiad a bydd sesiwn y prynhawn yn canolbwyntio ar werthusiadau.

(k) Mewn ymateb i gwestiynau'r aelodau am warant gyllido Llywodraeth y DU, dywedodd Damien O'Brien y bydd y warant yn gwarantu ymrwymiadau cyllido a wnaed yn ystod busnes arferol cyn datganiad yr hydref (23 Tachwedd). Nid 'diwedd y stori' yw datganiad yr hydref a bydd WEFO yn parhau i arfarnu ceisiadau a datblygu amserlen o weithrediadau a gaiff eu cymeradwyo efallai y tu hwnt i'r adeg hon. Bydd gweithrediadau sydd â'r potensial i gael eu hymestyn yn dal i fod yn destun asesiadau ar berfformiad a chyfraniad at allbynnau.

(l) Mae'r DU yn dal i fod yn aelod o'r UE ac felly mae’r rheolau presennol sy'n rheoli'r defnydd o Gronfeydd yr UE yn parhau i fod mewn grym ac mae cyflawni gweithrediadau cymeradwy a chyflawni allbynnau disgwyliedig yn unol â'r proffiliau cyflawni a gwariant cytûn yn dal i fod yn flaenoriaeth allweddol.

(m) Nododd un aelod y dylai argymhellion o adroddiad cenhadon yr UE gael eu datblygu a thynnodd sylw at y ffaith bod angen i sefydliadau ledled Cymru ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ar bob mater yn ymwneud â threfniadau pontio'r UE. Nodwyd bod tîm Pontio Ewropeaidd newydd wedi cael ei sefydlu i arwain a chydgysylltu dull gweithredu Llywodraeth Cymru.

<u>Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig 2014 - 2020</u>

(n) Dywedodd Andrew Slade fod y Cynllun Datblygu Gwledig yn parhau i wneud cynnydd da ers iddo gael ei gymeradwyo'n ffurfiol ym mis Mai 2015. O gynnwys cymeradwyaethau a chylchoedd datganiadau o ddiddordeb a hysbysebwyd, mae cyfanswm o £529m wedi ei neilltuo, y mae £339m ohono yn arian yr UE. Arweiniodd y set gyntaf o gylchoedd datganiadau o ddiddordeb at 168 o geisiadau a thua 62 o'r ail gylch.

(o) Mae Adran yr Amgylchedd a Materion Gwledig wedi bod yn cynnal gwaith ar drefniadau pontio'r UE a chynhaliwyd nifer o weithdai gydag ystod o randdeiliaid dros yr haf, yn edrych ar risgiau a chyfleoedd. Er ei bod yn 'fusnes fel arfer' o hyd, y flaenoriaeth yw sicrhau'r cyllid mwyaf a gwmpesir gan warant Llywodraeth y DU a gwneud y defnydd gorau o'r cronfeydd.

(p) Mewn ymateb i gwestiynau gan yr aelodau dywedodd Andrew Slade:

- Mae cyfathrebu'n hollbwysig yn ystod y cyfnod pontio a bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau y caiff negeseuon ar amseriad cynlluniau a ffenestri eu cyfleu i randdeiliaid.
- Mae gan y Cynllun Datblygu Gwledig gyfradd gynllunio o £1:€1.18. Mae hyn oherwydd bod proses y Cynllun Datblygu Gwledig yn wahanol i broses y Cronfeydd Strwythurol a all bennu ei chyfradd gynllunio ei hun. Fel rhan o'r addasiad i'r rhaglen y disgwylir iddo gael ei gyflwyno i'r CE, caiff y gyfradd gynllunio ei diwygio er mwyn bod yn gydnaws â'r Cronfeydd strwythurol a buddsoddi Ewropeaidd eraill.

Rhaglenni ERDF

(q) Dywedodd Sue Price fod rhaglenni ERDF yn parhau i wneud cynnydd da a bod £200m arall o ERDF wedi ei neilltuo ers PMRh mis Chwefror. Yr ymrwymiad cyffredinol ar gyfer y ddwy raglen yw 40% ac mae portffolios ym mhob blaenoriaeth yn datblygu'n dda.

(r) Bydd WEFO yn parhau i ddatblygu fel llawer o weithrediadau hyd at y cam cymeradwyo cyn datganiad yr hydref ar yr amod bod y cynlluniau busnes yn gadarn, ar sail tystiolaeth ac yn bodloni gofynion arferol prosesau arfarnu a dethol WEFO.

(s) Y gofyniad allweddol ar gyfer pob gweithrediad yw ffocws ar gyflawni. Oherwydd yr amgylchiadau cyfredol nid oes lle ar gyfer llithriant ac mae angen i weithrediadau sicrhau eu bod yn perfformio ac yn cyflawni yn unol â'r proffil.

(t) Rhoddodd Sue y newyddion diweddaraf hefyd i'r aelodau ar yr amserlen ar gyfer pob blaenoriaeth a nododd yr heriau sy'n gysylltiedig â Blaenoriaeth 3, ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd ynni, yn enwedig datblygu cynlluniau ynni cymunedol ar raddfa fach. Mae hyn yn raddol oherwydd cyfyngiadau o ran cymorth gwladwriaethol a'r sgiliau sydd eu hangen ar gymunedau er mwyn datblygu a rheoli'r cynlluniau.

(u) Ychwanegodd yr aelodau fod rhwystrau fel llywio'r gweithdrefnau cynllunio a'r newidiadau i'r farchnad sy'n effeithio ar yr angen am grantiau hefyd wedi creu heriau pellach. Ychwanegodd Sue y gellid ceisio addasu rhaglen gan fod llawer o'r heriau sy'n codi ym mlaenoriaeth 3 o ganlyniad i newidiadau yn amodau'r farchnad.

(v) Mewn ymateb i gwestiynau gan yr Aelodau, dywedodd WEFO:

- Fod gweithrediad Arbed 3 wrthi'n cael ei ddatblygu. Mae tîm newydd o fewn Llywodraeth Cymru yn gweithredu ar hyn ac mae ganddo gydberthynas waith dda â WEFO. Y gobaith yw y gellir cymeradwyo'r gweithrediad hwn cyn datganiad yr hydref.
- Bwriedir cynnal cyfarfod â buddiolwyr y trydydd sector a WEFO ar 28 Medi i drafod y papur a gyflwynwyd i WEFO ynghylch problemau o ran y prosesau cyfredol.

Rhaglenni ESF

(w) Dywedodd Jane McMillan fod rhaglenni ESF yn parhau i wneud cynnydd da a bod £130m ychwanegol wedi'i neilltuo ers PMRh mis Chwefror, sy'n cyfateb i ymrwymiad cyffredinol o 47% ar draws y ddwy raglen. Mae pob maes Blaenoriaeth yn datblygu'n dda gyda phortffolio cytbwys o weithrediadau ar draws pob maes, wedi'i lunio ar sail nifer o brif weithrediadau. Mae'r amserlen datblygu yn cynnig gweithgaredd arbenigol wedi'i deilwra fwy i ategu a llenwi bylchau a disgwylir i lefelau ymrwymo gynyddu cyn datganiad yr hydref. Bydd angen

cymeradwyaethau newydd ar gynlluniau busnes cadarn sy'n bodloni'r prosesau arfarnu a dethol.

(x) Mae nifer y cyfranogwyr mewn rhai ardaloedd yn fwy na'r proffil ac wrth i weithrediadau gyflwyno rhagor o hawliadau i'r awdurdod rheoli bydd yn bosibl dal ac adrodd yn gywir ar ddata perfformiad.

(y) Ategwyd bod angen i weithrediadau cymeradwy sicrhau eu bod yn cyflawni yn unol â chanlyniadau cytûn a bod dibyniaeth ar fuddiolwyr i gyflawni.

(z) Mewn ymateb i gwestiynau gan yr aelodau dywedodd WEFO:

- Mae rhai o ardaloedd y rhaglen ESF yn creu heriau, fel targedu cyfranogwyr sydd bellaf o'r farchnad lafur a nodi cyfranogwyr a allai o bosibl ddod yn NEET.
- Yn ogystal â dal canlyniadau dangosyddion, mae gan WEFO ddiddordeb hefyd mewn ansawdd ac effaith. Mae'n ofynnol i bob gweithrediad gynnal gwerthusiadau a bydd digwyddiad blynyddol WEFO ym mis Hydref yn canolbwyntio ar wersi gwerthuso a ddysgwyd a sut y rheolir gwerthusiadau yn y dyfodol.
- Anogir gweithrediadau i gyflawni a gwario ond ceir hyblygrwydd o hyd gyda'r rhaglenni yn ymateb i newidiadau yn y farchnad lafur. Mae gan nifer o ymyriadau sydd eisoes yn cyflawni, fel REACT, y gallu i gael eu datblygu ar raddfa fwy os bydd angen a cheir yr opsiwn hefyd i addasu'r rhaglenni os bydd angen.

(aa) Dywedodd yr aelodau fod gweithrediadau ar draws pob rhaglen yn eang eu cwmpas ac yn ddiddorol yn ôl pob golwg a gofynnwyd sut roedd lefel yr ymrwymiad ar yr adeg hon yn y rhaglenni yn cymharu â rhaglenni 2007-2013. Dywedodd Damien O'Brien fod y gwersi a ddysgwyd o raglenni 2007-2013 a'r lefelau ymrwymo ar y blaen o gymharu ag adeg debyg yn y rhaglenni blaenorol ac ar y blaen i ranbarthau eraill yn y DU. Gwnaeth y Cadeirydd ganmol WEFO am broffesiynoldeb y ffordd y strwythurwyd rhaglenni 2014-2020.

**EITEM 4: Addasu'r Rhaglen Datblygu Gwledig**

(bb) Hysbysodd Gail Merriman yr aelodau fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno addasiad i'r Rhaglen Datblygu Gwledig i'r Comisiwn Ewropeaidd a'i bod yn ceisio barn aelodau PMRh ar y newidiadau arfaethedig.

(cc) Amlinellwyd yr addasiadau arfaethedig a nodwyd yn y papur ac mewn ymateb i gwestiynau'r aelodau dywedodd yr Awdurdod Rheoli:

- Nid yw dileu is-fesur 6.1 yn golygu newid i'r Asesiad Anghenion a bydd Llywodraeth Cymru yn dal i annog newid rhwng y cenedlaethau yn y diwydiant ffermio. Fodd bynnag, caiff y gefnogaeth i newydd-ddyfodiaid a rhai ifanc ei darparu drwy becyn integredig o hyfforddiant, mentora, cymorth busnes a chyngor cyfreithiol arbenigol wedi'i deilwra i ofynion unigolion gan arwain at ymyriadau mwy cynaliadwy a chyraeddadwy.

- Cytunwyd y dylid diwygio'r geiriad ar dudalen 2 i ddarllen ‘there was a recognition by the industry of the challenges inherent in the start-up aid tool which was not the correct mechanism to achieve the required benefits’ er mwyn adlewyrchu'r amgylchiadau yn fwy cywir.
- Caiff y ffigurau ar dudalen 50 a thudalen 53 eu gwirio gan yr Awdurdod Rheoli i gadarnhau eu cywirdeb. Gall cyfanswm y gwariant cyhoeddus ar dudalen 53 fod oherwydd y newidiadau i'r gyfradd gynllunio a chaiff hyn ei gadarnhau â'r aelodau.
- Cadarnhawyd bod y wybodaeth ar dudalen 51 o ran Grwpiau Gweithredu Lleol yn gywir.
- Caiff y ffigurau "Current Approved" yn y tabl Cytundeb Partneriaeth ar dudalen 13 eu gwirio gan Lywodraeth Cymru er mwyn sicrhau eu bod yn gydnaws â fersiwn y Cytundeb Partneriaeth a gymeradwywyd ar 23 Awst 2016 cyn i ddiwygiad y Cynllun Datblygu Gwledig gael ei gyflwyno i'r CE.

(dd) Roedd y PMRh yn fodlon ar yr addasiadau arfaethedig ar yr amod yr ymdrinnid â'r materion a godwyd gan yr aelodau cyn cyflwyno'r addasiad yn ffurfiol i'r CE.

<u>Meini prawf dethol y Cynllun Datblygu Gwledig</u>

(ee) Dywedodd Gail Merriman fod Llywodraeth Cymru yn cynnig newid y meini prawf dethol i'w defnyddio ar gyfer Mesur 16.1: y Bartneriaeth Arloesedd Ewropeaidd ac M16.8: Cynllunio Coedwigaeth yn Strategol, Mesur 16.5: y Cynllun Rheoli Cynaliadwy a Mesur 4.1: y cynllun Grant Cynhyrchu Cynaliadwy ac mae'n ceisio barn y PMRh ar y newidiadau hyn.

(ff) Amlinellwyd y newidiadau arfaethedig i'r aelodau gan nodi bod adran 1 o'r papur yn gymwys i gynlluniau newydd ac adran 2 i gynlluniau sydd eisoes yn bodoli. Trafododd yr aelodau y cynigion ac mewn ymateb i gwestiynau nododd yr Awdurdod Rheoli y canlynol:

- Ni fydd newidiadau i'r meini prawf dethol ar gyfer cynlluniau sydd eisoes yn bodoli yn effeithio ar fuddiolwyr a fu'n llwyddiannus mewn cylchoedd datganiadau o ddiddordeb blaenorol yn unol â'r meini prawf dethol blaenorol ac maent yn paratoi ceisiadau yn awr.
- Rhaid i ymgeiswyr ddefnyddio'r fersiwn o'r ffurflen datganiadau o ddiddordeb sy'n gyfredol ar gyfer y ffenestr y maent yn gwneud cais oddi tani. Bydd diwygiadau yn parhau i gael eu cyfleu'n glir i randdeiliaid a chaiff gwybodaeth am y meini prawf dethol ei diweddaru ar wefan Llywodraeth Cymru pan agorir pob ffenestr.
- Caiff meini prawf ar gyfer cynaliadwyedd hirdymor y Bartneriaeth Arloesedd Ewropeaidd eu hegluro yn y canllawiau.
- O ran Cynllunio Coedwigaeth yn Strategol, dylai'r meini prawf ynghylch cyfranogiad ymgeisydd mewn digwyddiad cyn ymgeisio gael eu hegluro yn y canllawiau neu eu dileu.

(gg) Nododd Marek Beran, DG AGRI, y dylai diwygiadau i'r meini prawf dethol mewn cyfarfodydd yn y dyfodol, ymddangos fel eitem ar wahân ar yr agenda. Yn ogystal â hyn, dylai fersiwn ddiwygiedig wedi'i chydgrynhoi o'r papur WPMC

(15)56 – Atodiad 1 ynghylch meini prawf dethol EAFRD gael ei dosbarthu i PMRh. At hynny, gwnaed sylwadau ynghylch M16.1 – nid yw'n ymddangos bod y testun arfaethedig yn unol â thestun cyfredol y Cynllun Datblygu Gwledig ac, er mwyn sefydlu'r sefyllfa, cytunodd Llywodraeth Cymru i ymateb i PMRh gyda'r tabl diwygiadau yn dangos yn glir y cydberthnasau rhwng y meini prawf dethol cyfredol ar gyfer y mesur hwn a'r rhai newydd. Yn olaf, gofynnwyd i Lywodraeth Cymru egluro sut i fesur yr ateb i gwestiwn rhif 4 ym meini prawf dethol M16.8 sy'n ymwneud â chyfranogiad y cynigydd mewn digwyddiad cyn ymgeisio.

(hh) Rhoddodd yr aelodau eu barn gadarnhaol ar y newidiadau arfaethedig i'r meini prawf dethol yn amodol ar sylwadau/newidiadau i'w hystyried.

| |
|---|
| **CAM GWEITHREDU: Fersiwn ddiwygiedig wedi'i chydgrynhoi o feini prawf dethol EAFRD i'w dosbarthu i PMRh** |

**EITEM 5: Themâu Trawsbynciol: Adroddiad Blynyddol ar Gyfleoedd Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw**

(ii) Darparodd Chriss O'Connell yr adolygiad blynyddol cyntaf o gynnydd wrth weithredu thema drawsbynciol cyfleoedd cyfartal a phrif ffrydio rhyw a thynnodd sylw at y canlynol:

- Mae'n rhy gynnar yng nghylch oes y rhaglenni i adrodd ar y dangosydd cydraddoldeb ffurfiol, fodd bynnag, mae gweithrediadau wedi ymrwymo i gynnal gweithgareddau i gefnogi'r dangosydd.
- Gwnaed gwelliannau o ran cefnogi'r iaith Gymraeg ac mae WEFO wedi bod mewn cysylltiad â swyddfa Comisiynydd y Gymraeg i dynnu sylw at y camau rhagweithiol sy'n cael eu cymryd.
- Cafwyd adborth cadarnhaol gan fuddiolwyr ar ddull newydd y thema drawsbynciol er y bydd ceisio cynnal brwdfrydedd drwy gydol cyfnod y rhaglen yn parhau i fod yn her.

(jj) Nododd un aelod fod angen rhagor o eglurder ynghylch y dull cymesur o ymdrin â gofynion y Gymraeg ar gyfer sefydliadau bach y trydydd sector gan eu bod yn wahanol i'r gofynion ar gyfer sefydliadau sector cyhoeddus mawr fel Llywodraeth Cymru.

**EITEM 6: Cyflwyniad: Dinas-ranbarth Bae Abertawe**

(kk) Rhoddodd Arthur Emyr o Ddinas-ranbarth Bae Abertawe (SBCR) a Helen Morgan, cynghorydd CLlLC, gyflwyniad ar y SBCR a gwaith y Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol. Codwyd y pwyntiau canlynol:

- Nod yr SBCR yw trawsnewid y rhanbarth yn uwch ganolfan ddigidol ryngwladol drwy gebl newydd ar draws yr Iwerydd a ffocws y bwrdd yw creu ffyniant economaidd ar gyfer y Ddinas-ranbarth.
- Mae tair thema sef; Rhyngrwyd Cyflym Economaidd, Rhyngrwyd Ynni a Rhyngrwyd Iechyd a Llesiant.
- Gwnaed cryn gynnydd ers cyflwyno Bargen Ddinesig 'Arfordir y Rhyngrwyd' ym mis Chwefror ac mae proses ymgysylltu â busnesau a phartïon eraill â diddordeb i nodi blaenoriaethau ar gyfer y SBCR yn parhau.
- Gwnaeth y RET gefnogi bwrdd y SBCR i ddeall cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd a hwyluso prawfesur gweithrediadau yn rhanbarthol yn unol â blaenoriaethau rhanbarthol.
- Un o nodau'r RET yw manteisio i'r eithaf ar gronfeydd yr UE i ategu bargen ddinesig Bae Abertawe.

(ll) Mewn ymateb i gwestiynau, dywedodd yr aelodau:

- Er mai bargen ddinesig yw hon, mae'r economi wledig yr un mor bwysig ac mae gwella'r rhaniad digidol rhwng ardaloedd trefol a gwledig yn rhan o'r weledigaeth ar gyfer y rhanbarth.
- Mae'r SBCR yn ymgysylltu ag ystod o bartneriaid craidd gan gynnwys prifysgolion ac er bod hynny'n heriol, mae partneriaid yn sylweddoli y gellir gwireddu'r weledigaeth ar gyfer y rhanbarth.

(mm) Diolchodd y Cadeirydd i Arthur a Helen am y cyflwyniad a nododd yr aelodau ei fod yn ddefnyddiol deall sut mae'r RET a'r SBCR yn cydweithio i wneud y defnydd gorau o gronfeydd yr UE.

**EITEM 7: Fformat a threfniadau PMRh yn y dyfodol**

(nn) Dywedodd Peter Ryland mai bwriad y papur oedd ysgogi trafodaeth ynghylch trefniadau cyfarfod cyfredol PMRh. Mae ffurfio un PMRh ar gyfer rhaglenni 2014-2020 wedi creu nifer o heriau, mae wedi golygu bod angen i aelodau PMRh ddatblygu dealltwriaeth o nifer o offerynnau ariannu'r UE ac mae wedi ystyried ystod eang o faterion mewn un cyfarfod. Mae'r awdurdodau rheoli am sicrhau bod y PMRh yn parhau i fod yn effeithiol a gwella ar y trefniadau cyfredol os bydd angen.

(oo) Trafododd yr Aelodau y papur a gwnaed y pwyntiau canlynol:

- Nid oes awydd cynyddu hyd y cyfarfod i gyfarfod drwy'r dydd na rhannu'r cyfarfodydd dros ddau ddiwrnod.

- Teimlodd rhai aelodau y gallai PMRh gael ei gynnal mewn lleoliadau gwahanol ledled Cymru.
- Mae'r aelodau'n cael y papurau 10 diwrnod gwaith cyn y cyfarfod; felly dylai cyflwyniadau o bapurau fod yn fyr/cryno fel bod amser i drafod.
- Pan fydd angen trafodaeth fanylach mewn ardal yna gellid mabwysiadu fformat 'gweithgor'. Fodd bynnag, dylai pob aelod gael y cyfle i fynychu gweithgorau o'r fath ac ni ddylid eu defnyddio i wanhau ymdrechion presennol i integreiddio'r ddarpariaeth o raglenni o dan oruchwyliaeth un PMRh.
- Mae gan y PMRh gyfrifoldeb statudol felly byddai unrhyw argymhellion a wneir mewn gweithgor yn gorfod cael eu trafod yn y PMRh unigol er mwyn cytuno arnynt.

(pp) Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am eu cyfraniad a gofynnodd am i unrhyw sylwadau pellach ar y papur gael eu hanfon drwy e-bost at Ysgrifenyddiaeth y PMRh.

| |
|---|
| **ACTION: Members to provide additional comments on the future PMC format and arrangements paper to the PMC Secretariat** |

**EITEM 8: UNRHYW FATER ARALL**

(qq) Gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau nodi'r papur ar ddiweddariad y Cymorth Technegol a gwnaeth ddiolch i'r Aelodau am eu cyfraniad at y trafodaethau yn y cyfarfod.

(rr) Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 2 Rhagfyr 2016.

**Ysgrifenyddiaeth y PMRh**
**Medi 2016**

**Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd 2014 – 2020 PMRh Cymru**
**9 Medi 2016**
**Swyddfa Llywodraeth Cymru, Merthyr Tudful**

**Cadeirydd** - Yr Athro Richard B Davies

***Enwebir yr aelodau ar sail gynrychioliadol, o bartneriaid a chyrff statudol:***

| | |
|---|---|
| Derek Walker | Economi Gymdeithasol (Canolfan Cydweithredol Cymru) |
| Martin Mansfield | *Yn lle Julie Cook - Unedau Llafur (TUC Cymru)* |
| Karen Anthony | Yr Economi Wledig (CLA - Cymdeithas Siroedd, Tir a Busnesau) |
| Rachel Lewis Davies | Ffermio a Busnesau gwledig (Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr) |
| Paul Byard | Busnes a Menter (Commerce Cymru) |
| Rudi Plaut | Busnes a Menter (Commerce Cymru) |
| Fillipo Campagni | *Yn lle Greg Walker - Addysg Bellach (Colegau Cymru)* |
| Rhian Jardine | Cynaliadwyedd Amgylcheddol (Cyfoeth Naturiol Cymru) |
| Barbara Burchell | *Yn lle'r Cyngh Ronnie Hughes - Llywodraeth Leol (CLlLC*) |
| Lowri Gwilym | Llywodraeth Leol (CLlLC) |
| Jocelyn Llewellyn | Llywodraeth y DU (Canolfan Byd Gwaith) |
| Matthew Quinn | Llywodraeth Cymru (Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol) |
| Matt Brown | *Yn lle Phil Fiander* – Trydydd Sector (CGGC) |
| Alyson Thomas | *Yn lle Dr David Blaney* – Addysg Uwch (CCAUC) |

***Aelodau wedi'u dethol drwy'r broses Penodiadau cyhoeddus:***

| |
|---|
| Beth Winkley |
| Dr Grahame Guildford |
| Sian Price |

***Cynghorwyr:***

| | |
|---|---|
| Marek Beran | Y Comisiwn Ewropeaidd, Swyddog Desg y DU sy'n gyfrifol am raglen 2014-2020, DG Agri |
| Guus Muijzers | Comisiwn Ewropeaidd, Swyddog Desg y DU sy'n gyfrifol am Raglenni 2014-2020, DG Regio |
| Kristina Kuzmanova | Comisiwn Ewropeaidd, Swyddog Desg y DU sy'n gyfrifol am Raglenni 2014-2020, DG Regio |
| Joanna Gawrylczyk-Malesa | Comisiwn Ewropeaidd, Swyddog Desg ar gyfer Rhaglenni ESF, DG Employ |

**Awdurdodau Rheoli Rhaglenni:**

**Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru / Adran yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol**

| | |
|---|---|
| Damien O'Brien | Prif Weithredwr, WEFO (ERDF, ESF) |
| Andrew Slade | Cyfarwyddwr, yr Adran Amaeth, Bwyd a'r Môr (Cynllun Datblygu Gwledig) |
| Gail Merriman | Pennaeth Polisi (RDP) |
| Peter Ryland | Dirprwy Gyfarwyddwr, Perfformiad Rhaglenni a Chyllid (ERDF, ESF) |
| Sue Price | Pennaeth Rhaglenni ERDF |
| Jane McMillan | Pennaeth Rhaglenni ESF |
| Chriss O'Connell | Pennaeth y Gangen Themâu Trawsbynciol |
| Lois Wilson | Ysgrifenyddiaeth |
| Tiffany Edmunds | Ysgrifenyddiaeth |

***Cyflwynydd Gwadd:***

| | |
|---|---|
| Arthur Emyr | Dinas-ranbarth Bae Abertawe |
| Helen Morgan | Rheolwr Datblygu Economaidd, Cyngor Sir Caerfyrddin a Chynghorydd CLlLC |

**YMDDIHEURIADAU**

| | |
|---|---|
| Tom Whyatt | Menter a Busnes (Diwydiant Cymru) |
| Dr David Blaney | Addysg Uwch (CCAUC) |
| Phil Fiander | Trydydd Sector (CGGC) |
| Duncan Hamer | Llywodraeth Cymru (Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol) |
| David (Dai) Davies | Penodai Cyhoeddus |
| Joy Kent | Penodai Cyhoeddus |
| Cath Jenkins | Llywodraeth Cymru (Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol) |
| Cyngh Ronnie Hughes | Llywodraeth Leol (CLlLC) |
| Lowri Owain | LEADER |
| Arfon Williams | Cyrff anllywodraethol (Cyswllt Amgylchedd Cymru /RSPB) |
| Peter Crews | Undebau Llafur (TUC Cymru) |

WPMC(16)M12

**Atodiad B – Pwyntiau gweithredu**

| Dyddiad y cyfarfod | Cam Gweithredu a Geisiwyd | Sefyllfa Ddiweddaraf |
|---|---|---|
| 09 Medi 2016 | Fersiwn ddiwygiedig wedi'i chydgrynhoi o feini prawf dethol EAFRD i'w dosbarthu i PMRh. | |
| 09 Medi 2016 | Aelodau i ddarparu sylwadau ychwanegol ar fformat y PMRh<br>yn y dyfodol a phapur trefniadau i Ysgrifenyddiaeth y | |

**PWYLLGOR MONITRO RHAGLENNI CYMRU, CRONFEYDD STRWYTHUROL A BUDDSODDI EWROPEAIDD 2014 – 2020**
**ADRODDIAD MONITRO'R RHAGLENNI**

**Trosolwg**

Mae'r papur hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am weithredu Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd: Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020, ERDF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Rhaglenni ESF a Rhaglenni ERDF ac ESF Dwyrain Cymru. Ceir adroddiadau ar gronfeydd penodol yn Atodiadau 1 i 3. Mae'r holl ddata'n gyfredol ar 31/10/2016. Y cyfraddau cynllunio a ddefnyddir yn yr adroddiad yw £1:€1.25 ar gyfer Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol a £1:€1.18 ar gyfer Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020. Mae cyfeiriadau at gyfarfod blaenorol Pwyllgor Monitro'r Rhaglenni drwy'r ddogfen gyfan yn cyfeirio at y cyfarfod ym mis Medi 2016.

**Y sefyllfa gyffredinol**

- Mae 128 o weithrediadau gwerth £1,944m (gan gynnwys arian yr UE gwerth £935m), yn cael eu cefnogi ar hyn o bryd gan y Cronfeydd Strwythurol a byddant yn cynorthwyo dros 41,500 o fusnesau ac yn rhoi cymorth hyffordiant/cyflogaeth i fwy na 288,600 o bobl.
- Mae Cynllun Datblygu Gwledig 2014-2020 yn cefnogi cyfanswm o 6,877 o gontractau amaeth-amgylcheddol ar hyn o bryd, sy'n cwmpasu 676,469 hectar ynghyd â 553 o gontractau organig newydd sy'n cwmpasu 68,440 hectar.

**Cynnydd ariannol**

**Neilltuo cyllid**


- O dan Raglenni ERDF, mae cyfanswm o £1,144m wedi cael ei neilltuo ar hyn o bryd (64% o gyfanswm y dyraniad), y mae £551m ohono yn arian yr UE (49% o ddyraniad yr UE).
- O dan Raglenni ESF, mae cyfanswm o £800m wedi cael ei neilltuo ar hyn o bryd (67% o gyfanswm y dyraniad), y mae £384m ohono yn arian yr UE (48% o ddyraniad yr UE).
- O dan Gynllun Datblygu Gwledig 2014-2020, mae cyfanswm o £683m (71% o werth y rhaglen) wedi ei neilltuo (gan gynnwys cymeradwyaethau a chylchoedd datganiadau o ddiddordeb), y mae £387m ohono yn arian yr UE.

**Gwariant**

Mae tua £80m o gyfanswm y gwariant wedi'i gofnodi o dan Raglenni ERDF, y mae £29m ohono yn arian yr UE.

- Mae tua £112m o gyfanswm y gwariant wedi'i gofnodi o dan Raglenni ESF, y mae £75m ohono yn arian yr UE.
- Mae ychydig dros £43m o wariant wedi'i gofnodi yng Nghynllun Datblygu Gwledig 2014-2020, y mae £32m ohono yn arian yr UE.

## Siart 1: Cyfanswm Gwariant Rhaglenni a Neilltuwyd / a Wariwyd




Ar gyfer Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 mae Cyfanswm Gwariant y Rhaglen yn cynnnwys Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig ynghyd â chyllid domestig Llywodraeth Cymru. Ar gyfer y Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol mae'n cynnwys ERDF neu ESF ynghyd ag arian cyfatebol.

## Siart 2: Cronfeydd yr UE a Neilltuwyd / a Wariwyd (ERDF / ESF / EAFRD)



## Data ar Allbynnau

| Dangosydd | Targed | Rhagolwg Prosiect | Cyflawnwyd hyd yn hyn |
|---|---|---|---|
| **ERDF** | | | |
| Mentrau a gefnogir | 45,512 | 41,510 | 3,013 |
| *o rhain* | | | |
| Mentrau a grëwyd | 7,400 | 10,028 | 1,375 |
| Cynydd cyflogaeth yn y mentrau a gefnogir | 26,980 | 33,549 | 1,724 |
| Maint o gyllid ymchwil a sicrhawyd | £230m | £92m | £26m |
| Cynnydd yn lefel allforio | £233m | £215m | £0m |
| Capasiti ychwanegol o gynhyrchu ynni adnewyddadwy | 28 | 1 | - |
| Nifer y cartrefi â dosbarthiad defnydd o ynni gwell | 9,700 | - | - |
| Gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus a grëwyd neu sydd wedi gwella | 2,920,000 vehicle km | - | - |
| **ESF** | | | |
| Pobl a gynorthwyir | 434,100 | 288,650 | 48,979 |
| *o rhain* | | | |
| Pobl ifanc a gynorthwyir | 150,000 | 76,246 | 10,836 |
| Pobl a gefnogir i gael gwaith | 40,642 | 32,110 | 2,054 |
| Pobl sy.n ennill cymwysterau | 194,633 | 148,921 | 806 |
| **EAFRD** | | | |
| Ardal ffisegol a gefnogir | 688,000 | 528,010 | 676,469 |
| Pobl dan hyfforddiant | 13,000 | 9,720 | - |
| Taliadau amaethyddol a gefnogir | 3,773 | 542 | 553 |

Ffynhonnell: SCEC, 31/10/2016

## Atodiadau

**Atodiad 1: Diweddariad ERDF**
**Atodiad 2: Diweddariad ESF**
**Atodiad 3: Diweddariad WGRC-RDP 2014-2020**

## Adran 1: Rhaglenni ERDF: Neilltuo cyllid

Mae'r adran hon yn nodi'n fanwl y cynnydd ariannol presennol o dan Raglenni ERDF, gan gynnwys trosolwg o'r Rhaglenni a gwybodaeth ar lefel Blaenoriaeth.

Dengys Tabl 1 nifer Grantiau'r UE a'r symiau a neilltuwyd ar gyfer Gweithrediadau cymeradwy o dan Raglenni ERDF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru, ynghyd â Grantiau'r UE y gellid eu neilltuo o bosibl os bwriedir bwrw ymlaen â Gweithrediadau ar y cam Cynllunio Busnes a'r cam Cyn Cynllunio

**Tabl 1: Neilltuo Grant yr UE: Cam Cymeradwy, Cam Cynllunio Busnes a Cham Cyn Cynllunio**

£ Miliynau

| Rhaglen / Echel Blaenoriaeth | Gweithrediadau | | | Ymrwymiad Grant UE | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cymeradwywyd | Cynllunio Busnes | Cynllunio o flaen llaw | Dyraniad* | Cymeradwywyd | Cynllunio Busnes | Cynllunio o flaen llaw |
| **ERDF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd** | | | | | | | |
| Blaenoriaeth 1 | 15 | 3 | 1 | 239.5 | 176.7 | 27.3 | 7.0 |
| Blaenoriaeth 2 | 7 | 0 | 0 | 166.4 | 146.4 | - | - |
| Blaenoriaeth 3 | 3 | 7 | 5 | 136.7 | 16.6 | 72.1 | 30.8 |
| Blaenoriaeth 4 | 9 | 11 | 3 | 401.0 | 126.1 | 122.3 | 103.0 |
| Blaenoriaeth 5 | 6 | 1 | 0 | 19.3 | 5.2 | 11.3 | - |
| **Cyfanswm** | **40** | **22** | **9** | **962.8** | **471.0** | **233.0** | **140.8** |
| **ERDF Dwyrain Cymru** | | | | | | | |
| Blaenoriaeth 1 | 6 | 2 | 0 | 71.3 | 43.3 | 17.2 | - |
| Blaenoriaeth 2 | 7 | 1 | 0 | 31.9 | 26.6 | 5.0 | - |
| Blaenoriaeth 3 | 0 | 1 | 1 | 17.9 | - | 3.5 | 0.5 |
| Blaenoriaeth 4 | 2 | 0 | 1 | 38.3 | 9.3 | - | 28.9 |
| Blaenoriaeth 5 | 5 | 1 | 0 | 3.3 | 1.0 | 1.6 | - |
| **Cyfanswm** | **20** | **5** | **2** | **162.6** | **80.2** | **27.3** | **29.4** |
| **Cyfanswm ERDF** | **60** | **27** | **11** | **1,125.5** | **551.2** | **260.3** | **170.2** |

Ffynhonnell: SCEC, 31/10/2016

## Diweddariad Cyffredinol o'r Rhaglenni

Mae'r ddwy Raglen ERDF yn parhau i wneud cynnydd da gyda 60 o weithrediadau wedi'u cymeradwyo gan neilltuo grant o £551 miliwn, sef 49% o werth y rhaglenni a chynnydd o £114 miliwn o grant ers cyfarfod Pwyllgor Monitro'r Rhaglenni ym mis Medi 2016. Ar wahân i Flaenoriaeth 3 – mae Ynni yng ngweithrediadau Dwyrain Cymru wedi cael ei gymeradwyo ym mhob Blaenoriaeth gan gynnwys Blaenoriaeth 4 – Cysylltedd.

## Adran 2: Cynnydd yn ôl Echel Blaenoriaeth
## Blaenoriaeth 1: Ymchwil ac Arloesedd

| Amcan Penodol | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | | | | Dwyrain Cymru | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gweithrediadau | Dyraniad Mynegol | Cymeradwywyd ERDF | | Gweithrediadau | Dyraniad Mynegol | Cymeradwywyd ERDF | |
| AP1.1: Adnoddau Ymchwil | 5 | £95.8m | £68.8m | 72% | 3 | £26.9m | £18.2m | 68% |
| AP1.2: Masnacheiddio | 10 | £143.7m | £107.9m | 75% | 3 | £44.4m | £25.1m | 57% |
| **Cyfanswm Blaenoriaeth 1** | **15** | **£239.5m** | **£176.7m** | **74%** | **6** | **£71.3m** | **£43.3m** | **61%** |

Ffynhonnell: SCEC, 31/10/2016

## Cymeradwyaethau ers cyfarfod diwethaf Pwyllgor Monitro'r Rhaglenniwyl

| Gweithrediadau | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | | Dwyrain Cymru | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm y fuddsoddiad | Cymeradwywyd ERDF | Cyfanswm y fuddsoddiad | Cymeradwywyd ERDF |
| SEACAMS 2 (Bangor University) | £17.0m | £12.0m | | |
| AgorIP (Swansea University) | £13.5m | £4.7m | | |

Mae'r portffolio Ymchwil ac Arloesedd yn parhau i ddatblygu'n dda gyda 70% o'r adnoddau sydd ar gael wedi'u neilltuo yn y ddwy raglen. Bu'r ffocws hyd yma ar ddatblygu a chymeradwyo gweithrediadau strategol a/neu brif weithrediadau a fydd yn cyflawni elfennau allweddol y portffolio Ymchwil ac Arloesedd; y nod yw cefnogi newid sylweddol yn yr economi wybodaeth yng Nghymru. Ceir amrywiaeth dda o fuddsoddiadau o dan Amcanion Penodol (meithrin gallu ymchwil a masnacheiddio gwaith ymchwil a datblygu).
Er mwyn adeiladu ymhellach ar y ffocws hwn lansiwyd cais am gynigion arloesol a all droi ymchwil ac arloesedd yn gynhyrchion, yn brosesau ac yn wasanaethau masnachol newydd a gwell yn llwyddiannus ar 20 Hydref. Mae tua £40 miliwn o ERDF ar gael ar gyfer y cais hwn (£30 miliwn yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a £10 miliwn yn Nwyrain Cymru) ar gyfer cynigion a fydd yn cynnwys pwyslais diwydiannol cryf a sicrhau'r canlyniadau allweddol, megis cynyddu cyflogaeth a darparu cynhyrchion newydd, ac ychwanegu gwerth amlwg at weithgarwch sy'n mynd rhagddo eisoes yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Daw'r cais i ben ar 31 Ionawr 2017. Gall aelodau gael rhagor o wybodaeth am y cais ar dudalennau WEFO o wefan Llywodraeth Cymru.

# Tabl 2: Cynnydd yn erbyn dangosyddion

**Blaenoriaeth 1: Ymchwil ac Arloesedd**

| Amcan Penodol | Allbynnau | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | | | Dwyrain Cymru | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Targed | Rhagolwg Prosiect | Cyflawnwyd hyd yma | Targed | Rhagolwg Prosiect | Cyflawnwyd hyd yma |
| AP1.1 Gwella llwyddiant sefydliadau ymchwil yng Nghymru yn denu cyllid ymchwil cystadleuol a phreifat | Swm y cyllid ymchwil a sicrhawyd | £165m | £64m | £9m | £65m | £28m | £17m |
| | Nifer y mentrau sy'n cydweithio â sefydliadau ymchwil a gynorthwyir | 160 | 52 | - | 90 | 13 | - |
| | Nifer y gwell cyfleusterau seilwaith ymchwil | 6 | 4 | - | 2 | 1 | 1 |
| | Nifer yr ymchwilwyr newydd mewn endidau a gynorthwyir | 470 | 91 | - | 290 | 59 | 16 |
| | Nifer yr ymchwilwyr yn gweithio mewn gwell cyfleusterau seilwaith ymchwil | 200 | 128 | - | 110 | 61 | 37 |
| AP1.2 Cynyddu cyfraddau trosi llwyddiannus prosesau ymchwil ac arloesedd yn gynhyrchion, prosesau a gwasanaethau masnachol newydd a gwell, yn arbennig drwy well proses trosglwyddo technoleg o SAUau | Nifer y mentrau a gynorthwyir i gyflwyno cynnyrch sy'n newydd i'r farchnad | 490 | 166 | - | 300 | 67 | - |
| | Nifer y mentrau a gynorthwyir i gyflwyno cynnyrch sy'n newydd i'r cwmni | 725 | 369 | - | 440 | 117 | - |
| | Nifer y mentrau sy'n cydweithio â sefydliadau ymchwil a gynorthwyir | 1,212 | 499 | 2 | 715 | 117 | - |
| | Nifer y mentrau sy'n cael grantiau | 520 | 342 | - | 320 | 305 | - |
| | Nifer y mentrau sy'n cael cymorth anariannol | 3,750 | 1,080 | 35 | 2,245 | 435 | 16 |
| | Nifer y mentrau newydd a gynorthwyir | 30 | 28 | - | 20 | - | - |
| | Buddsoddiad preifat sy'n cyfateb i gymorth cyhoeddus mewn prosiectau arloesedd neu ymchwil a datblygu | €42.8m | €46.0m | €0.0m | €26.2m | €25.5m | €0.0m |
| | Cynnydd cyflogaeth mewn mentrau a gynorthwyir | 1,125 | 467 | - | 670 | 136 | - |
| | Nifer y patentau sydd wedi eu cofrestru ar gyfer cynnyrch | 519 | 206 | - | 315 | 75 | - |
| | Nifer y prosiectau peilot a gwblhawyd | n/a | 48 | - | n/a | - | - |
| | Mentrau sy'n mabwysiadu: | | | | | | |
| | - neu'n gwella strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth a systemau monitro | 956 | - | - | 515 | - | - |
| | - neu'n gwella strategaethau datblygu cynaliadwy a systemau monitro | 956 | - | - | 515 | - | - |

Ffynhonnell: SCEC, 31/10/2016

Ceir rhai amrywiannau yn y flaenoriaeth hon o gymharu â'r hyn y gellid ei ddisgwyl o ystyried y cyllid a neilltuwyd ond mae'n rhaid cydnabod y bydd SO1.1, o ystyried ei ffocws ar feithrin gallu, gan gynnwys seilwaith cysylltiedig, yn cymryd amser i sicrhau canlyniadau. Mae'r newid o ran targedu ar gyfer y Flaenoriaeth hon – o gymharu â rhaglenni blaenorol (a ddefnyddiwyd fel sail i bennu targedau rhaglenni) – yn enwedig yn effeithio ar yr amcan ynglŷn â masnacheiddio (SO1.2). Bydd y cais a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn chwilio'n benodol am gynigion a all gyflawni dangosyddion allweddol SO1.2. Mae rhaglenni 2014-2020 yn ceisio targedu mwy o gwmnïau sy'n cynnwys 10 cyflogai neu fwy, a rhoi mwy o bwyslais ar y microfusnesau hynny sydd â photensial gwirioneddol i dyfu i'r maint hwnnw o leiaf. Gallai'r dull gweithredu hwn gael mwy o effaith economaidd, ond bydd yn golygu llai o ffocws ar nifer y busnesau a gefnogir. Mae'r dangosyddion hefyd yn adlewyrchu pwyslais ar fwy o deilwra i roi cymorth dwysach, gan ystyried systemau arloesi yn eu cyfanrwydd yn y busnesau/clystyrau gwahanol (gan gyfrif pob menter lle y caiff cynhyrchion newydd eu cyflwyno, er enghraifft) yn hytrach na nifer y datblygiadau arloesol (a all arwain at lai o bwyslais ar yr effaith ar drosiant / defnyddioldeb). Mae data allbwn yn cael eu cyflwyno ar hyn o bryd ond maent yn dal i gael eu dilysu, felly data dros dro ydynt ar hyn o bryd.

## Blaenoriaeth 2: Cystadleurwydd BBaChau

| Amcan Penodol | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | | | | Dwyrain Cymru | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gweithrediadau | Dyraniad Mynegol | Cymeradwywyd ERDF | | Gweithrediadau | Dyraniad Mynegol | Cymeradwywyd ERDF | |
| AP2.1: Mynediad i Gyllid | 1 | £54.9m | £74.8m | 136% | 1 | £8.6m | £8.0m | 93% |
| AP2.2: Busnesau newydd | 1 | £13.7m | £18.6m | 136% | 1 | £3.3m | £6.2m | 188% |
| AP2.3: Defnyddio TGCh a manteisio arni | 1 | £8.7m | £5.2m | 60% | 1 | £1.3m | £1.7m | 131% |
| AP2.4: Twf Cyflogaeth | 3 | £73.2m | £27.0m | 37% | 3 | £16.1m | £8.3m | 51% |
| AP2.5: Cyllid Cyfalaf Risg | 1 | £15.9m | £20.7m | 130% | 1 | £2.6m | £2.4m | 92% |
| **Cyfanswm Blaenoriaeth 2** | **7** | **£166.4m** | **£146.4m** | **88%** | **7** | **£31.9m** | **£26.6m** | **83%** |

Ffynhonnell: SCEC, 31/10/2016

## Cymeradwyaethau ers cyfarfod diwethaf Pwyllgor Monitro'r Rhaglenniwyl

| Gweithrediadau | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | | Dwyrain Cymru | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm y fuddsoddiad | Cymeradwywyd ERDF | Cyfanswm y fuddsoddiad | Cymeradwywyd ERDF |
| Social Business Growth Fund (Wales Council for Voluntary Action) | £3.0m | £1.8m | £1.0m | £0.5m |

Cafodd portffolio integredig ei ddatblygu yn seiliedig ar y gweithrediadau sy'n rhan o 'Deulu Busnes Cymru' sy'n cwmpasu Llywodraeth Cymru, Canolfan Cydweithredol Cymru a Cyllid Cymru. Mae CGGC wedi ymuno â'r 'Teulu' yn ddiweddar ar ôl i'r Gronfa Twf Busnes Gymdeithasol gael ei chymeradwyo'n ddiweddar.

Lansiwyd Cronfa Fusnes Cymru, sef Offeryn Ariannol, yn ffurfiol ym mis Medi 2016. Mae'r Gronfa wedi cychwyn yn dda ac eisoes wedi buddsoddi bron £2 filiwn. Mae crynodiad o nifer fach o weithrediadau mawr eu heffaith (14 o weithrediadau hyd yma yn gweithredu ar draws y ddwy ardal raglenni) yn achosi rhai risgiau oherwydd, er bod y gweithrediadau, yn strategol, yn bwriadu cynllunio effaith economaidd fawr ar y cyd, ni fyddai angen ond i un gweithrediad dangyflawni neu fod ar ei hôl hi a gallai perfformiad y Flaenoriaeth fod yn y fantol. Mae camau lliniaru ar waith ynghyd â chyfarfodydd adolygu rheolaidd a heriol, adolygiadau cyflawni annibynnol blynyddol o flwyddyn tri ymlaen, y bydd yr argymhellion sy'n deillio ohonynt yn sbarduno cymorth yn y dyfodol a chyflwyno digwyddiad blynyddol i randdeiliaid gyda'r holl fuddiolwyr a'u contractwyr trydydd parti ar gyfer gweithrediadau teulu Busnes Cymru gan gynnwys Rheolwyr Cronfa Fusnes Cymru a chynrychiolwyr o Cyswllt Ffermio er mwyn helpu i integreiddio Rhaglenni ERDF a'r Cynllun Datblygu Gwledig â'i gilydd.

Cynhaliwyd y digwyddiad cyntaf ar 16 Medi pan fanteisiodd WEFO ar y cyfle i bwysleisio'r neges, nid yn unig i fuddiolwyr ond i'w darparwyr trydydd parti, er bod gwario'r arian yn bwysig, fod cyflawni'n bwysig hefyd a chofnodi dangosyddion. Nododd pob darparwr fod cynnydd da yn cael ei wneud o ran darparu ar lawr gwlad ond roeddent yn deall y neges glir bod angen troi gwariant yn gofnod o gyflawni dangosyddion.

## Tabl 3: Cynnydd yn erbyn dangosyddion

| Amcan Penodol | Allbynnau | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | | | Dwyrain Cymru | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Targed | Rhagolwg Prosiect | Cyflawnwyd hyd yma | Targed | Rhagolwg Prosiect | Cyflawnwyd hyd yma |
| AP2.1 Cynyddu faint o gyllid sydd ar gael i BBaChau, yn fusnesau newydd ac yn fusnesau sy'n ehangu | Buddsoddi mewn mentrau | £91.6m | £172.1m | £0.0m | £25.9m | £45.7m | £0.0m |
| | Nifer y mentrau sy'n cael grantiau | 160 | - | - | 45 | - | - |
| | Nifer y mentrau sy'n cael cymorth ariannol ac eithrio grantiau | 235 | 296 | - | 65 | 122 | - |
| | Buddsoddiad preifat sy'n cyfateb cymorth cyhoeddus i fusnesau bach a chanolig - Nad ydynt yn grantiau | €132.0m | €93.5m | €0.0m | €37.3m | €10.8m | €0.0m |
| | Cynnydd cyflogaeth mewn mentrau a gynorthwyir | 2,300 | 2,541 | - | 650 | 1,128 | - |
| | Mentrau sy'n mabwysiadu: | | | | | | |
| | - neu'n gwella strategaethau datblygu cynaliadwy a systemau monitro | 190 | 167 | - | 60 | - | - |
| | - neu'n gwella strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth a systemau monitro | 190 | 194 | - | 25 | - | - |
| AP2.2 Cynyddu nifer y BBaCh newydd drwy ddarparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad a chymorth ym maes entrepreneuriaeth | Nifer y mentrau newydd a gynorthwyir | 5,150 | 6,000 | 937 | 2,200 | 4,000 | 438 |
| | Nifer y mentrau sy'n cael cymorth anariannol | 275 | - | - | 120 | - | - |
| | Unigolion sy'n cael cymorth | 14,350 | 6,000 | 854 | 6,200 | 4,000 | 466 |
| | Unigolion sy'n cael cymorth - Benywaidd | 7,300 | - | - | 3,100 | - | - |
| | Unigolion sy'n cael cymorth - Pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig | 375 | - | - | 445 | - | - |
| | Unigolion sy'n cael cymorth - Pobl anabl | 3,650 | - | - | 1,350 | - | - |
| | Cynnydd cyflogaeth mewn mentrau a gynorthwyir | 8,800 | 10,250 | 660 | 3,800 | 6,750 | 280 |
| | Mentrau sy'n mabwysiadu: | | | | | | |
| | - neu'n gwella strategaethau datblygu cynaliadwy a systemau monitro | 2,710 | 1,500 | - | 465 | 1,000 | - |
| | - neu'n gwella strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth a systemau monitro | 2,710 | 1,500 | 1 | 1,165 | 1,000 | 1 |
| AP2.3 Cynyddu'r defnydd o rwydweithiau NGA a seilwaith TGCh gan BBaChau | Nifer y mentrau a gynorthwyir i gyflwyno cynnyrch sy'n newydd i'r cwmni | 1,480 | 1,480 | - | 400 | 400 | - |
| | Nifer y mentrau sy'n cael cymorth anariannol | 3,450 | 3,823 | 170 | 900 | 1,094 | 230 |

[1] Ffigurau dros dro yw'r ffigurau cyflawnwyd hyd yma o dan SO2.2 a SO2.4 ac maent yn dal i gael eu dilysu

| Amcan Penodol | Allbynnau | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | | | Dwyrain Cymru | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Targed | Rhagolwg Prosiect | Cyflawnwyd hyd yma | Targed | Rhagolwg Prosiect | Cyflawnwyd hyd yma |
| AP2.4 Cynyddu twf y BBaChau hynny â photensial i dyfu, yn enwedig drwy gael mynediad i farchnadoedd newydd (domestig a rhyngwladol) | Cynnydd cyflogaeth mewn mentrau a gynorthwyir | 6,450 | 7,215 | 645 | 2,550 | 4,606 | 139 |
| | Nifer y mentrau sy'n cael grantiau | 40 | 30 | - | 10 | 15 | - |
| | Nifer y mentrau sy'n cael cymorth ariannol ac eithrio grantiau | 330 | - | - | 115 | - | - |
| | Nifer y mentrau sy'n cael cymorth anariannol | 13,650 | 12,400 | 774 | 5,400 | 8,170 | 411 |
| | Buddsoddiad preifat sy'n cyfateb i gymorth cyhoeddus i fusnesau bach a chanolig - Grantiau | €4.3m | 0 | - | €2.2m | 0 | - |
| | Buddsoddiad preifat sy'n cyfateb cymorth cyhoeddus i fusnesau bach a chanolig - Nad ydynt yn grantiau | €6.6m | - | - | €3.4m | - | - |
| | Cynnydd mewn lefelau allforio | £167.1m | £130.0m | £0.0m | £65.9m | £85.0m | £0.0m |
| | Mentrau sy'n mabwysiadu: | | | | | | |
| | - neu'n gwella strategaethau datblygu cynaliadwy a systemau monitro | 8,700 | 5,000 | 10 | 1,300 | 3,300 | - |
| | - neu'n gwella strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth a systemau monitro | 8,700 | 5,000 | 16 | 3,200 | 3,300 | 1 |
| AP2.5 Mynd i'r afael â methiannau'r farchnad o ran argaeledd cyllid, yn enwedig cyfalaf risg, fel y gall BBaChau Cymreig gyflawni arloesedd a masnacheiddio ymchwil a datblygu | Buddsoddi mewn mentrau | £26.5m | £48.9m | £0.0m | £7.2m | £9.8m | £0.0m |
| | Nifer y mentrau sy'n cael cymorth ariannol ac eithrio grantiau | 90 | 49 | - | 25 | - | - |
| | Buddsoddiad preifat sy'n cyfateb cymorth cyhoeddus i fusnesau bach a chanolig - Nad ydynt yn grantiau | €23.8m | €25.9m | €0.0m | €14.1m | €3.3m | €0.0m |
| | Cynnydd cyflogaeth mewn mentrau a gynorthwyir | 490 | 361 | - | 145 | 95 | - |
| | Nifer y mentrau a gynorthwyir i gyflwyno cynnyrch sy'n newydd i'r cwmni | 20 | 33 | - | 5 | 8 | - |
| | Mentrau sy'n mabwysiadu: | | | | | | |
| | - neu'n gwella strategaethau datblygu cynaliadwy a systemau monitro | 45 | 15 | - | 5 | - | - |
| | - neu'n gwella strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth a systemau monitro | 45 | 18 | - | 13 | - | - |

Ffynhonnell: SCEC, 31/10/2016

Ffigurau dros dro yw data allbwn cyflawnwyd hyd yma ac maent yn cael eu dilysu. Caiff hawliadau allbwn yn unig eu cyflwyno gan Cyllid Cymru er mwyn mesur cyfradd fuddsoddi’r ‘Gronfa’ yn erbyn SO 2.1 a SO 2.5 a sbarduno cylch hawlio nesaf cymorth yr UE.

## Blaenoriaeth 3: Ynni Adnewyddadwy ac Effeithlonrwydd Ynni

| Amcan Penodol | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | | | | Dwyrain Cymru | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gweithrediadau | Dyraniad Mynegol | Cymeradwywyd ERDF | | Gweithrediadau | Dyraniad Mynegol | Cymeradwywyd ERDF | |
| AP3.1: Ynni'r Môr | 3 | £80.3m | £16.6m | 21% | n/a | n/a | n/a | n/a |
| AP3.2: Ynni Cymunedol (AP3.1 Dwyrain Cymru) | 0 | £18.7m | £0.0m | 0% | 0 | £3.6m | £0.0m | 0% |
| AP3.3: Arbed Ynni (AP3.2 Dwyrain Cymru) | 0 | £37.6m | £0.0m | 0% | 0 | £14.3m | £0.0m | 0% |
| **Cyfanswm Blaenoriaeth 3** | **3** | **£136.7m** | **£16.6m** | **12%** | **0** | **£17.9m** | **£0.0m** | **0%** |

Ffynhonnell: SCEC, 31/10/2016

**Cymeradwyaethau ers cyfarfod diwethaf Pwyllgor Monitro'r Rhaglenniwyl**

Dim cymeradwyaethau ers cyfarfod blaenorol Pwyllgor Monitro'r Rhaglenni.

Mae'r Flaenoriaeth hon yn faes arloesol yn y rhaglenni ac er bod cynnydd yn fwy heriol na'r disgwyl, mae rhywfaint o gynnydd yn cael ei wneud; yn enwedig o ran gweithio gyda datblygwyr sy'n awyddus i ddefnyddio'r dyfroedd o amgylch Cymru ar gyfer eu dyfeisiau ynni'r tonnau ac ynni'r llanw. Pwysleisiwyd hyn unwaith eto yng nghynhadledd Ynni Cefnforoedd Ewrop ym Mrwsel ym mis Tachwedd lle cyhoeddwyd sefydlu corff newydd, Ynni Môr Cymru. Bydd Ynni Môr Cymru yn helpu i ddatblygu'r diwydiant newydd hwn gan ddwyn ynghyd arbenigedd o'r llywodraeth, y diwydiant a'r byd academaidd i ddatblygu'r diwydiant yng Nghymru ymhellach. Mae gwaith datblygu yn cymryd amser ond drwy ddwyn arbenigedd ynghyd disgwylir gwneud cynnydd o ran cyflawni prosiectau yn nyfroedd Cymru.  Ar y cyfan mae'r prosiectau sydd yn yr arfaeth yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd o gymorth o ran helpu'r rhaglen i gyflawni hyn.

Mae llai o gyfle ar gyfer gweithgarwch yn rhaglen Dwyrain Cymru gan nad yw cynhyrchu ynni'r môr yn weithgarwch cymwys. Fel y cyfryw, mae rhaglen Dwyrain Cymru yn dibynnu ar weithrediadau a fydd yn cefnogi cynlluniau ynni adnewyddadwy cymunedol ar raddfa fach a gwella effeithlonrwydd ynni stoc tai Cymru sy'n bodoli eisoes, yn enwedig mewn ardaloedd o dlodi tanwydd. Mae gweithdai wedi cael eu cynnal ledled Cymru i godi ymwybyddiaeth o'r cyllid sydd ar gael o dan gynlluniau ynni adnewyddadwy cymunedol ar raddfa fach yr UE ac mae nifer o gynlluniau posibl yn cael eu hystyried ond prin yw'r diddordeb o hyd yn Nwyrain Cymru. Cynhelir y digwyddiad nesaf ar 9 Rhagfyr a bydd WEFO yn cloriannu'r sefyllfa ddechrau 2017 ac yn ystyried yr opsiynau gorau ar gyfer defnyddio'r adnoddau sydd ar gael.

## Tabl 4: Cynnydd yn erbyn dangosyddion

| Amcan Penodol | Allbynnau | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | | | Dwyrain Cymru | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Targed | Rhagolwg Prosiect | Cyflawnwyd hyd yma | Targed | Rhagolwg Prosiect | Cyflawnwyd hyd yma |
| AP3.1 Cynyddu nifer y dyfeisiau ynni tonnau a llanw a brofir yn nyfroedd Cymru ac oddi ar yr arfordir, gan gynnwys araeau aml-ddyfais, a thrwy hynny sefydlu Cymru fel canolfan cynhyrchu ynni morol | Gallu ac adnoddau ychwanegol cynhyrchu ynni adnewyddadwy | 20 | 1 | - | n/a | n/a | n/a |
| | Cynlluniau paratoi safle cynorthwyo ynni | 2 | 1 | - | n/a | n/a | n/a |
| | Nifer y prototeipiau ynni adnewyddadwy a brofwyd | 8 | 3 | - | n/a | n/a | n/a |
| AP3.2 Cynyddu nifer y cynlluniau ynni adnewyddadwy bach a sefydlir (AP3.1 Dwyrain Cymru) | Cynlluniau ynni cymunedol | 37 | - | - | 3 | - | - |
| | Nifer y mentrau sy'n cael cymorth anariannol | 150 | - | - | 70 | - | - |
| | Nifer y mentrau a gynorthwyir i gyflwyno cynnyrch sy'n newydd i'r cwmni | 75 | - | - | 35 | - | - |
| | Nifer y prosiectau peilot a gwblhawyd | 4 | - | - | 3 | - | - |
| | Gallu ac adnoddau ychwanegol cynhyrchu ynni adnewyddadwy | n/a | n/a | n/a | 8 | - | - |
| | Cynlluniau paratoi safle cynorthwyo ynni | n/a | n/a | n/a | 1 | - | - |
| | Nifer y prototeipiau ynni adnewyddadwy a brofwyd | n/a | n/a | n/a | 3 | - | - |
| AP3.3 Cynyddu effeithlonrwydd ynni stoc dai bresennol Cymru, yn enwedig mewn ardaloedd tlodi tanwydd (AP3.2 Dwyrain Cymru) | Nifer yr aelwydydd â dosbarthiad gwell o ran y defnydd o ynni | 5,500 | - | - | 4,200 | - | - |
| | Amcangyfrif o'r gostyngiad mewn nwyon tŷ gwydr | 10 | - | - | 5 | - | - |

Ffynhonnell: SCEC, 31/10/2016

Ar hyn o bryd, mae'n rhy fuan i ddod i unrhyw gasgliadau pendant ynglŷn â chyflawni'r dangosyddion. O ystyried y gweithrediadau hynny sy'n cael eu datblygu, nid oes unrhyw bryderon ar hyn o bryd ynglŷn â'r allbynnau ac ymddengys bod cynnydd da yn cael ei wneud o ran yr holl ddangosyddion, hyd yn oed o ystyried natur arloesol y Flaenoriaeth ac mai gwaith adeiladu cyfalaf yw'r gweithrediadau a ariennir lle bydd adroddiadau cyflawni yn cael eu cyflwyno'n ddiweddarach yn ystod y cyfnod rhaglennu.

## Blaenoriaeth 4: Cysylltedd a Datblygu Trefol

| Amcan Penodol | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | | | | Dwyrain Cymru | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gweithrediadau | Dyraniad Mynegol | Cymeradwywyd ERDF | | Gweithrediadau | Dyraniad Mynegol | Cymeradwywyd ERDF | |
| AP4.1: Ffyrdd | 0 | £85.1m | £0.0m | 0% | n/a | n/a | n/a | n/a |
| AP4.2: Trafnidiaeth Gyhoeddus (AP4.1 Dwyrain Cymru) | 2 | £137.7m | £19.0m | 14% | 0 | £28.9m | £0.0m | 0% |
| AP4.3: TGCh (AP4.2 Dwyrain Cymru) | 2 | £44.6m | £19.9m | 45% | 2 | £9.4m | £9.3m | 99% |
| AP4.4: Safleoedd Strategol | 5 | £133.7m | £87.3m | 65% | n/a | n/a | n/a | n/a |
| **Cyfanswm Blaenoriaeth 4** | **9** | **£401.0m** | **£126.1m** | **31%** | **2** | **£38.3m** | **£9.3m** | **24%** |

Ffynhonnell: SCEC, 31/10/2016

## Cymeradwyaethau ers cyfarfod diwethaf Pwyllgor Monitro'r Rhaglenniwyl

| Gweithrediadau | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | | Dwyrain Cymru | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm y fuddsoddiad | Cymeradwywyd ERDF | Cyfanswm y fuddsoddiad | Cymeradwywyd ERDF |
| Superfast Broadband Infill (Welsh Government) | £21.1m | £13.8m | £14.2m | £7.1m |
| Ultrafast Broadband (Welsh Government) | £9.2m | £6.0m | £4.4m | £2.2m |
| Strategic Employment Sites (Welsh Government) | £20.8m | £11.6m | | |
| Port Talbot Transport Hub (Neath Port Talbot County Borough Council) | £5.3m | £2.5m | | |
| Property Infrastructure Fund (Welsh Government) | £20.0m | £7.0m | | |
| Vet Hub 1 (Aberystwyth University) | £4.6m | £3.0m | | |

Buddsoddi mewn cysylltedd a seilwaith galluogi yw'r ddau ffactor pwysicaf i sicrhau proses o weddnewid. Mae seilwaith yn tueddu i fod yn un o'r elfennau mwyaf llafurus i'w datblygu a'i chymeradwyo ond eto i gyd ceir cymeradwyaethau yn y ddau ranbarth rhaglennu. Fel Blaenoriaeth 3 cyfyngedig yw'r gweithgarwch cymwys y gellir ei gefnogi o dan Flaenoriaeth 4 o raglen Dwyrain Cymru (sy'n canolbwyntio ar Fand Eang a'r Metro yn gyfan gwbl).

Mae'n rhaid i weithgareddau penodol o dan Flaenoriaeth Cysylltedd ar gyfer rhaglen Gorllewin Cymru a'r Cymoedd gael eu blaenoriaethu'n rhanbarthol. Cafodd gweithrediad Cyrchfannau Denu Twristiaeth a gymeradwywyd ei flaenoriaethu felly ac mae dau brosiect sy'n cael eu cefnogi gan y prif weithrediad wedi cael eu cymeradwyo'n ddiweddar, sef Rock UK a Glannau Bae Colwyn. Mae nifer o brosiectau unigol eraill sy'n rhan o'r 'prif' weithrediad hwn ar y cam cynllunio busnes a disgwylir amserlen o gymeradwyaethau dros yr ychydig fisoedd nesaf.

Cymeradwywyd Adeiladu ar gyfer y Dyfodol ac mae'r rhai cyntaf o'r prosiectau Safleoedd ac Eiddo 'llenwi bwlch' wedi'u blaenoriaethu'n rhanbarthol ar gam cynllunio busnes WEFO.

Mae Adran Drafnidiaeth Llywodraeth Cymru yn parhau i wneud cynnydd cyson o ran gwerthuso opsiynau Cam 2 y Metro a fydd yn ceisio cymorth o dan ERDF. Bydd Cam 2 y Metro yn brosiect mawr, fel y'i diffinnir yn Rheoliadau Cronfeydd Strwythurol yr UE, a bydd angen iddo gael ei gymeradwyo gan y Comisiwn Ewropeaidd. Mae'r

Comisiwn wedi cyflwyno proses asesu newydd ar gyfer prosiectau mawr a fydd yn cynnwys ymgysylltu ag arbenigwyr JASPERS (yn Saesneg **J**oint **A**ssistance to **S**upport **P**rojects in **E**uropean **R**egions). Anogir Aelod-wladwriaethau i ymgysylltu â'r JASPERS mor fuan â phosibl wrth ddatblygu prosiectau mawr ac i'r perwyl hwn cynhaliwyd cyfarfodydd adeiladol rhwng WEFO, Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru a JASPERS, gan gynnwys galwadau cynadledda dros y ffôn mynych rhwng JASPERS, WEFO a Llywodraeth Cymru.

Bydd JASPERS yn gweithredu mewn rôl ymgynghori drwy gydol y broses o ddatblygu prosiect mawr Cam 2 y Metro ac mae Cytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng WEFO a JASPERS wedi'i lunio ac wedi'i lofnodi. Mae WEFO o'r farn y bydd ymgysylltu â JASPERS mewn rôl ymgynghori drwy gydol y broses o ddatblygu prosiect mawr yn debygol o sicrhau arfarniad cyffredinol cyflymach o'r ddogfennaeth prosiect mawr a sicrhau canlyniad IQR cadarnhaol.

## Tabl 5: Cynnydd yn erbyn dangosyddion

| Amcan Penodol | Allbynnau | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | | | Dwyrain Cymru | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Targed | Rhagolwg Prosiect | Cyflawnwyd hyd yma | Targed | Rhagolwg Prosiect | Cyflawnwyd hyd yma |
| AP4.1 Ymdrin ag ymyloldeb a gwella buddsoddiad preifat mewn ardaloedd lleol drwy wella'r ffordd y mae'r Rhwydwaith Trafnidiaeth Traws-Ewropeaidd (TEN-T) yn gweithredu) | Cyfanswm hyd y ffyrdd a ailadeiladwyd neu a uwchraddiwyd (gan gynnwys TEN-T) | 15 | - | - | n/a | n/a | n/a |
| | Llwybr troed neu lwybr beicio wedi'i greu neu ei ailadeiladu | 10 | - | - | n/a | n/a | n/a |
| AP4.2 Mwy o symudedd trefol a llafur i ac o ganolfannau trefol a chyflogaeth allweddol (AP4.1 Dwyrain Cymru) | Gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus wedi'u creu neu eu gwella | 2,500,000 | - | - | 420,000 | - | - |
| | Cyfleusterau rhyngfoddol wedi'u creu neu eu gwella | 25 | 6 | - | 5 | - | - |
| | Cyfanswm hyd rheilffordd newydd (gan gynnwys TEN-T) | 15 | - | - | n/a | n/a | n/a |
| | Cyfanswm hyd y rheilffordd a ailadeiladwyd neu a uwchraddiwyd (gan gynnwys TEN-T) | 15 | - | - | 3 | - | - |
| | Cilometrau teithwyr gros ar drafnidiaeth gyhoeddus | 400,000,000 | 1,790,041 | - | 67,200,000 | - | - |
| | Cyfanswm hyd y ffyrdd a ailadeiladwyd neu a uwchraddiwyd (gan gynnwys TEN-T) | 5 | 1 | - | 5 | - | - |
| | Lleihad mewn allyriadau cyfatebol ag $CO_2$ | 10,700 | - | - | 1,800 | - | - |

| Amcan Penodol | Allbynnau | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | | | Dwyrain Cymru | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Targed | Rhagolwg Prosiect | Cyflawnwyd hyd yma | Targed | Rhagolwg Prosiect | Cyflawnwyd hyd yma |
| AP4.3 Cyfrannu at dargedau Agenda Ddigidol Ewrop yng Nghymru am fynediad o 30% i fand eang y genhedlaeth nesaf (50Mbps ac uwch) a mynediad o 100% i 100Mbps (AP4.2 Dwyrain Cymru) | Eiddo ychwanegol â mynediad band eang 30 Mbps o leiaf - Aelwydydd | 28,000 | 69,524 | - | 28,000 | 46,801 | - |
| | Nifer y Mentrau a gynorthwyir i gysylltu â rhwydweithiau 100Mbps neu uwch | 250 | 250 | - | 25 | 25 | - |
| | Poblogaeth ychwanegol sy'n derbyn band eang cyflym iawn (>100Mbps) | n/a | 91,053 | - | n/a | 43,494 | - |
| AP4.4 Cynyddu cyflogaeth drwy fuddsoddiadau mewn seilwaith lleol neu ranbarthol â blaenoriaeth sy'n ategu strategaeth economaidd ranbarthol neu drefol | Nifer y swyddi y crëwyd lle ar eu cyfer | 1,770 | 2,260 | - | n/a | n/a | n/a |
| | Tir wedi'i ddatblygu | 50 | 95 | - | n/a | n/a | n/a |
| | Adeiladau a grëwyd neu a adnewyddwyd | 56,430 | 124,114 | - | n/a | n/a | n/a |
| | Nifer y busnesau bach a chanolig y crëwyd lle ar eu cyfer | 235 | 229 | - | n/a | n/a | n/a |

Ffynhonnell: SCEC, 31/10/2016

Mae'n rhy fuan dod i unrhyw gasgliadau pendant ar gyflawni allbynnau; ond o'r hyn a gymeradwywyd a'r hyn sydd ar gam cynllunio busnes a chyn cynllunio, ymddengys fod y broses o gyflawni allbynnau a thargedau ar y trywydd iawn.

## Blaenoriaeth 5: Cymorth Technegol

| | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | | | | Dwyrain Cymru | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gweithrediadau | Dyraniad Mynegol | Cymeradwywyd ERDF | | Gweithrediadau | Dyraniad Mynegol | Cymeradwywyd ERDF | |
| **Cyfanswm Blaenoriaeth 5** | 6 | £19.3m | £5.2m | 27% | 5 | £3.3m | £1.0m | 30% |

Ffynhonnell: SCEC, 31/10/2016

## Cymeradwyaethau ers cyfarfod diwethaf Pwyllgor Monitro'r Rhaglenniwyl

| Gweithrediadau | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | | Dwyrain Cymru | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm y fuddsoddiad | Cymeradwywyd ERDF | Cyfanswm y fuddsoddiad | Cymeradwywyd ERDF |
| IB WG E and I TA Revenue (Welsh Government) | £3.4m | £3.0m | £2.80m | £0.75m |
| Mid Wales Regional Engagement Team | £0.275m | £0.206m | £0.059m | £0.029m |

Sefydlwyd pedwar Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol i helpu i wella'r ffordd rydym yn cyflwyno ac yn rheoli rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd 2014-2020. Maent wedi'u lleoli yn y gogledd, yn y canolbarth, ym Mae Abertawe ac yn y de-ddwyrain.

Maent yn ychwanegu gwerth at y ffordd y mae WEFO yn cyflwyno ac yn rheoli'r rhaglenni drwy sicrhau y caiff y gwaith hwn ei integreiddio'n rhanbarthol. Maent hefyd yn cyfrannu at y newid tuag at fodel cyflawni mwy strategol gyda fframwaith cliriach ar gyfer blaenoriaethu economaidd drwy sicrhau cysoni rhanbarthol a chydlyniant gweithrediadau. Un o brif swyddogaethau'r timau yw hwyluso'r broses o brawfesur gweithrediadau a gynigir o safbwynt rhanbarthol er mwyn rhoi barn ranbarthol i WEFO ynghylch y graddau y mae'r holl weithrediadau arfaethedig yn gyson â'r strategaethau perthnasol ac ymyriadau a gweithgareddau ehangach ac, ar adegau, hwyluso'r broses o flaenoriaethu rhai gweithrediadau arfaethedig yn rhanbarthol yn unol â chais gan WEFO (er enghraifft, ar gyfer Amcan Penodol 4.4 ERDF). Mae'r timau hefyd yn gweithio gyda'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol mewn perthynas â phrawfesur o safbwynt rhanbarthol ac ymgysylltu ynglŷn â gweithrediadau ESF.

Mae dau weithrediad ar y cam Cynllunio Busnes, a disgwylir i'r cynigion TA WEFO hyn gael eu cymeradwyo erbyn diwedd mis Tachwedd.

## Adran 1: Rhaglenni ESF: Neilltuo cyllid

Mae'r adran hon yn rhoi manylion y cynnydd ariannol presennol o dan y Rhaglenni ESF, gan gynnwys trosolwg o'r Rhaglenni a gwybodaeth ar lefel Blaenoriaeth. Dengys Tabl 1 nifer Grantiau'r UE a neilltuwyd a'r symiau ar gyfer Gweithrediadau cymeradwy o dan Raglenni ESF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru, ochr yn ochr â Grant posibl yr UE a neilltuwyd os bydd Gweithrediadau ar y Cam Cynllunio Busnes a'r cam Cyn Cynllunio yn mynd rhagddynt.

**Tabl 1: Neilltuo Grant yr UE: Cam Cymeradwy, Cam Cynllunio Busnes a Cham Cyn Cynllunio**

| Rhaglen / Echel Blaenoriaeth | Gweithrediadau | | | Ymrwymiad Grant UE | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cymeradwywyd | Cynllunio Busnes | Cynllunio o flaen llaw | Dyraniad* | Cymeradwywyd | Cynllunio Busnes | Cynllunio o flaen llaw |
| **ESF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd** | | | | | | | |
| Blaenoriaeth 1 | 10 | 4 | 0 | 156.8 | 68.8 | 2.3 | - |
| Blaenoriaeth 2 | 16 | 7 | 4 | 276.5 | 151.2 | 16.4 | - |
| Blaenoriaeth 3 | 11 | 10 | 3 | 195.8 | 96.3 | 35.7 | - |
| Blaenoriaeth 4 | 5 | 1 | 0 | 12.8 | 6.9 | 8.9 | - |
| **Cyfanswm** | **42** | **22** | **7** | **641.9** | **323.2** | **63.2** | **-** |
| **ESF Dwyrain Cymru** | | | | | | | |
| Blaenoriaeth 1 | 4 | 6 | 1 | 35.0 | 10.0 | 3.4 | - |
| Blaenoriaeth 2 | 10 | 6 | 3 | 76.4 | 24.3 | 17.3 | - |
| Blaenoriaeth 3 | 8 | 9 | 1 | 48.0 | 25.5 | 9.2 | - |
| Blaenoriaeth 4 | 4 | 1 | 0 | 3.3 | 1.1 | 2.0 | - |
| **Cyfanswm** | **26** | **22** | **5** | **162.6** | **60.9** | **32.0** | **-** |
| **Cyfanswm ESF** | **68** | **44** | **12** | **804.5** | **384.2** | **95.2** | **-** |

Ffynhonnell: SCEC, 31/10/2016

* Dyraniad grant UE yn seiliedig ar £1:€1.25

## Diweddariad Cyffredinol o'r Rhaglenni

Mae 47% wedi'i neilltuo ar gyfer y ddwy raglen erbyn hyn gyda £384 miliwn o gyllid ESF wedi'i gymeradwyo ar gyfer 68 o weithrediadau. Mae'r broses o neilltuo cyllid ar gyfer y ddwy raglen wedi arafu ers cyfarfod diwethaf Pwyllgor Monitro'r Rhaglenni gyda dim ond £7m o gyllid ESF wedi'i neilltuo. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffocws ar gymeradwyo prosiectau arbenigol llai o faint sy'n ategu prif brosiectau'r Flaenoriaeth ac yn llenwi bylchau o'u hamgylch.

Erbyn hyn mae gan bob maes Blaenoriaeth ac Amcan Penodol bortffolio cytbwys o weithrediadau sydd â'r nod o gyflawni ar gyfer yr amrywiaeth o grwpiau cleientiaid targed sy'n cymryd rhan a'r canlyniadau targed. Gallai gweithrediadau newydd sy'n cael eu datblygu o hyd arwain at neilltuo £95m arall ac maent yn cynnig gweithgarwch arbenigol wedi'i deilwra i lenwi bylchau yn yr amrywiaeth o ddarpariaeth a gynigir neu'r grŵp cleient a dargedir.

Mae'r rhaglenni wedi ymgysylltu â thros 47,000 o gyfranogwyr hyd yma.

## Adran 2: Cynnydd yn ôl Blaenoriaeth
## Blaenoriaeth 1: Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy

| Amcan Penodol | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | | | | Dwyrain Cymru | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gweithrediadau | Dyraniad Mynegol | Cymeradwywyd ESF | | Gweithrediadau | Dyraniad Mynegol | Cymeradwywyd ESF | |
| AP1.1: Helpu pobl i mewn i waith | 1 | £36.9m | £12.4m | 34% | n/a | n/a | n/a | n/a |
| AP1.2: Cynhwysiant ac Ymgysylltu mewn LM (AP1.1 Dwyrain Cymru) | 8 | £96.2m | £53.1m | 55% | 4 | £35.0m | £10.0m | 29% |
| AP1.3: Helpu pobl i aros mewn gwaith | 1 | £23.6m | £3.3m | 14% | n/a | n/a | n/a | n/a |
| **Cyfanswm Blaenoriaeth 1** | **10** | **£156.8m** | **£68.8m** | **44%** | **4** | **£35.0m** | **£10.0m** | **29%** |

Ffynhonnell: SCEC, 31/10/2016

## Cymeradwyaethau ers cyfarfod diwethaf Pwyllgor Monitro'r Rhaglenniwyl

| Gweithrediadau | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | | Dwyrain Cymru | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm y fuddsoddiad | Cymeradwywyd ESF | Cyfanswm y fuddsoddiad | Cymeradwywyd ESF |
| OPUS (Conwy County Borough Council) | £5.9m | £4.8m | | |

Cymeradwywyd £4.8 miliwn arall o gyllid ESF yn ardal raglenni Gorllewin Cymru a'r Cymoedd ers cyfarfod diwethaf Pwyllgor Monitro'r Rhaglenni sy'n golygu bod y swm a neilltuwyd o dan y Flaenoriaeth wedi cyrraedd 44% yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a 29% yn Nwyrain Cymru. Mae pob gweithrediad a gymeradwywyd yn mynd i'r afael â rhwystrau penodol y mae unigolion yn eu hwynebu i ddod o hyd i gyflogaeth ac aros mewn cyflogaeth. Maent oll yn adeiladu ar lwyddiannau cylch blaenorol cyllid ESF drwy barhau i ganolbwyntio ar gyflogaeth fel y prif amcan i unigolyn a hyd yn oed yn fwy ar yr unigolion hynny sydd ymhellaf i ffwrdd o'r farchnad lafur, sy'n wynebu'r rhwystrau mwyaf cymhleth i gael cyflogaeth.
Mae'r £4.8 miliwn arall o gyllid ESF wedi'i gymeradwyo ar gyfer gweithrediad **OPUS** a arweinir gan awdurdodau lleol rhanbarthol yn y gogledd o dan Amcan Penodol 2 yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd sy'n cael ei arwain gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac sy'n cynnwys awdurdodau lleol Ynys Môn, Gwynedd a sir Ddinbych.

## Tabl 1: Cynnydd yn erbyn dangosyddion

| Amcan Penodol | Allbynnau | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | | | Dwyrain Cymru | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Targed | Rhagolwg Prosiect | Cyflawnwyd hyd yma | Targed | Rhagolwg Prosiect | Cyflawnwyd hyd yma |
| AP1.1 Cynyddu cyflogadwyedd y rhai sydd agosaf at y farchnad lafur ac sy'n wynebu'r risg fwyaf o dlodi | Nifer y di-waith tymor byr heb sgiliau/sgiliau isel neu gyflwr iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio | 5,999 | - | - | n/a | n/a | n/a |
| | Unigolion y mae dileu swydd yn effeithio arnynt | 12,001 | 7,786 | 1,124 | n/a | n/a | n/a |
| | Cyfranogwyr di-waith yn y tymor byr â sgiliau isel neu gyflwr iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio mewn cyflogaeth wrth adael | 33% | 0% | 0% | n/a | n/a | n/a |
| | Cyfranogwyr di-waith yn y tymor byr â sgiliau isel neu gyflwr iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio sy'n ennill cymhwyster wrth adael | 50% | 0% | 0% | n/a | n/a | n/a |
| | Unigolion y mae dileu swydd yn effeithio arnynt sydd mewn cyflogaeth wrth adael | 55% | 50% | 76% | n/a | n/a | n/a |
| | Unigolion y mae dileu swydd yn effeithio arnynt sy'n ennill cymhwyster wrth adael | 70% | 72% | 0% | n/a | n/a | n/a |

| Amcan Penodol | Allbynnau | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | | | Dwyrain Cymru | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Targed | Rhagolwg Prosiect | Cyflawnwyd hyd yma | Targed | Rhagolwg Prosiect | Cyflawnwyd hyd yma |
| AP1.2 Cynyddu cyflogadwyedd pobl sy'n Economaidd anweithgar ac sy'n Ddiwaith yn yr Hirdymor sy'n 25 oed a throsodd sy'n wynebu rhwystrau cymhleth i gyflogaeth<br><br>(AP1.1 Dwyrain Cymru) | Economaidd anweithgar (25 oed a hŷn) nad ydynt mewn addysg na hyfforddiant sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth | 36,000 | 40,006 | 1,513 | 12,700 | 12,752 | 154 |
| | Di-waith tymor hir (25 oed a hŷn) sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth | 10,800 | 15,142 | 499 | 3,800 | 4,966 | 206 |
| | Economaidd anweithgar (25 oed a hŷn) nad ydynt mewn addysg na hyfforddiant sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth sy'n mynd i gyflogaeth gan gynnwys hunangyflogaeth wrth adael | 20% | 19% | 6% | 20% | 17% | 17% |
| | Economaidd anweithgar (25 oed a hŷn) nad ydynt mewn addysg na hyfforddiant sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth sy'n ymwneud â chwilio am swydd wrth adael | 25% | 14% | 6% | 25% | 13% | 26% |
| | Economaidd anweithgar (25 oed a hŷn) nad ydynt mewn addysg na hyfforddiant sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth sy'n ennill cymhwyster neu ardystiad perthnasol i waith wrth adael | 50% | 29% | 8% | 50% | 25% | 4% |
| | Economaidd anweithgar (25 oed a hŷn) nad ydynt mewn addysg na hyfforddiant sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth sy'n cynyddu eu cyflogadwyedd drwy gwblhau lleoliad profiad gwaith neu gyfle i wirfoddoli | 54% | 19% | 0% | 54% | 23% | 0% |
| | Di-waith hirdymor (25 oed a hŷn) sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth sy'n mynd i gyflogaeth gan gynnwys hunangyflogaeth wrth adael | 25% | 16% | 0% | 25% | 16% | 0% |
| | Di-waith yn yr hirdymor (25 oed a hŷn) sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth sy'n ennill cymhwyster neu ardystiad perthnasol i waith wrth adael | 50% | 28% | 10% | 50% | 20% | 1% |
| | Di-waith hirdymor (25 oed a hŷn) sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth sy'n cynyddu eu cyflogadwyedd drwy gwblhau lleoliad profiad gwaith neu gyfle i wirfoddoli | 54% | 16% | 4% | 53% | 21% | 1% |

| Amcan Penodol | Allbynnau | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | | | Dwyrain Cymru | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Targed** | **Rhagolwg Prosiect** | **Cyflawnwyd hyd yma** | **Targed** | **Rhagolwg Prosiect** | **Cyflawnwyd hyd yma** |
| AP1.3 Gostwng cyfraddau tangyflogaeth neu absenoldeb unigolion cyflogedig sydd â chyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar waith a/neu rwystrau eraill I ymgysylltu â'r farchnad lafur mewn modd cynaliadwy | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig sydd â chyflwr neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio | 4,000 | 4,232 | 6 | n/a | n/a | n/a |
| | Cyfranogwyr sydd wedi eu tangyflogi sydd â rhwystrau i gyflogaeth lawn | 4,000 | - | - | n/a | n/a | n/a |
| | Nifer y busnesau micro bach a chanolig a gynorthwyir | 2,000 | - | - | n/a | n/a | n/a |
| | Rhaglenni iechyd yn y gweithle | 300 | 130 | - | n/a | n/a | n/a |
| | Mentrau â chymorth sydd wedi mabwysiadu neu wella strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth a systemau monitro | 50% | 0% | 0% | n/a | n/a | n/a |
| | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig â chyflwr iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio sy'n dychwelyd i'r gwaith ar ôl cyfnod o absenoldeb | 50% | 19% | 100% | n/a | n/a | n/a |
| | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig â chyflwr iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio sydd mewn sefyllfa well ar y farchnad lafur wrth adael | 50% | 31% | 0% | n/a | n/a | n/a |
| | Cyfranogwyr sydd wedi eu tangyflogi sydd mewn sefyllfa well ar y farchnad lafur wrth adael fel contract parhaol ag oriau uwch | 40% | 0% | 0% | n/a | n/a | n/a |

Ffynhonnell: SCEC, 31/10/2016

Fel arfer, mae nifer y cyfranogwyr a ragwelir yn rhagori ar dargedau'r rhaglen o gymharu â chyfran y cyllid a ddyrennir. Er enghraifft, disgwylir i 65% o'r targed ar gyfer unigolion sydd wedi colli eu swyddi (SO1.1 o dan raglen Gorllewin Cymru a'r Cymoedd) gael ei gyflawni, ar ôl neilltuo dim ond 34% o'r cyllid sydd ar gael. Hyd yma, mae gweithrediadau Blaenoriaeth 1 wedi ymgysylltu â thros 3,000 o gyfranogwyr.
*Colli swydd a diweithdra byrdymor (SO 1.1 WWV):* nid yw nifer y bobl sydd wedi gwneud cais am gymorth ar ôl colli swydd o dan weithrediad ReACT wedi bod mor uchel â'r hyn a ddisgwyliwyd yn wreiddiol. Mae ReACT yn ymateb yn uniongyrchol i lefel y galw yn y farchnad lafur. Felly, gellir priodoli'r niferoedd isel yn rhannol i gryfder presennol y farchnad lafur (fel y dangoswyd gan y niferoedd uwch na'r disgwyl sydd wedi cael eu troi'n ganlyniadau cyflogaeth) a'r lefelau is o swyddi a gollwyd na'r hyn a ddisgwyliwyd yn wreiddiol. Felly, mae'n gadarnhaol ar y cyfan bod y niferoedd yn is na'r disgwyl ond mae'n rhywbeth y bydd angen i WEFO ei fonitro o ran lefelau gwariant cyffredinol yn yr amcan penodol hwn.
*Pobl ddi-waith ac economaidd anweithgar yn yr hirdymor (SO1.2 WWV a SO1 EW):* dengys y lefelau neilltuo a ragwelir bortffolio cadarn yn erbyn targedau o fewn y rhaglen. Mae'r niferoedd ymddangosiadol isel o gyfranogwyr hyd yma yn adlewyrchu'r terfynau amser hwy nag a ragwelwyd i roi systemau ar waith a dechrau cyflawni a natur fwy heriol ymgysylltu â'r grwpiau targed anos eu cyrraedd sy'n sail i amcanion y rhaglen. Adlewyrchir hyn hefyd yn y dangosyddion canlyniadau yn yr ystyr bod angen ymyriadau dwysach yn y tymor hwy gyda'r garfan anos ei chyrraedd ac felly caiff y canlyniadau a ragwelir eu sicrhau'n ddiweddarach yn y broses gyflawni.
*Pobl ddi-waith ac mewn gwaith sydd â Chyflyrau Iechyd sy'n cyfyngu ar y gallu i weithio (SO3 WWV):* unwaith eto, mae'r hyn a gyflawnwyd ychydig yn is na'r disgwyl ar y cam hwn oherwydd terfynau amser hwy nag a ragwelwyd i roi prosesau cyflawni ar waith.

## Blaenoriaeth 2: Sgiliau ar gyfer Twf

| Amcan Penodol | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | | | | Dwyrain Cymru | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gweithrediadau | Dyraniad Mynegol | Cymeradwywyd ESF | | Gweithrediadau | Dyraniad Mynegol | Cymeradwywyd ESF | |
| AP2.1: Sgiliau Sylfaenol | 5 | £133.3m | £48.0m | 36% | 3 | £50.0m | £8.3m | 17% |
| AP2.2: Hyblygrwydd a Chynnydd | 8 | £83.2m | £61.6m | 74% | 6 | £22.5m | £14.2m | 63% |
| AP2.3: Ymchwil ac Arloesi | 2 | £42.8m | £35.4m | 83% | n/a | n/a | n/a | n/a |
| AP2.4: Cydraddoldeb Rhywiol (AP2.3 Dwyrain Cymru) | 1 | £17.1m | £6.3m | 37% | 1 | £3.9m | £1.8m | 45% |
| **Cyfanswm Blaenoriaeth 2** | **16** | **£276.5m** | **£151.2m** | **55%** | **10** | **£76.4m** | **£24.3m** | **32%** |

Ffynhonnell: SCEC, 31/10/2016

**Cymeradwyaethau ers cyfarfod diwethaf Pwyllgor Monitro'r Rhaglenniwyl**
Dim ers cyfarfod blaenorol Pwyllgor Monitro'r Rhaglenni.

Nid oes unrhyw weithrediadau newydd wedi'u cymeradwyo ers cyfarfod diwethaf Pwyllgor Monitro'r Rhaglenni. Neilltuwyd £0.8 miliwn arall o gyllid ESF yn rhaglen Gorllewin Cymru a'r Cymoedd ar gyfer gweithrediad yr **Academi Deunyddiau a Gweithgynhyrchu** sy'n bodoli eisoes, a arweinir gan Brifysgol Abertawe, er mwyn cefnogi cyfranogwyr ychwanegol. Mae hyn yn golygu bod lefel neilltuo'r Flaenoriaeth wedi cyrraedd 55% yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a 32% yn Nwyrain Cymru.

Mae'r portffolio o weithrediadau hyd yma yn adeiladu ar gyflawniadau rhaglen 2007-2013, drwy ganolbwyntio ar ddarparu'r sgiliau technegol ac arbenigol hanfodol sydd eu hangen i greu gweithlu ystwyth ac ymatebol sy'n barod i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a'r potensial o ran twf a gynigir gan economi wybodaeth fodern. Er bod sgiliau sylfaenol a hanfodol yn sylfaen cyffredin, ac angenrheidiol, i'r gweithlu cyfan, mae'r wybodaeth am gyfleoedd twf allweddol a'r sectorau sy'n datblygu a'r sectorau â blaenoriaeth a nodwyd yn y Fframwaith Blaenoriaethu Economaidd, ynghyd â'r Cynlluniau Cyflogaeth a Sgiliau sy'n cael eu datblygu gan y Partneriaethau Dysgu Rhanbarthol a Gwybodaeth am y Farchnad Lafur yn adnoddau allweddol i arwain y gwaith o dargedu ymyriadau sgiliau a'u ffocws, yn enwedig y rhai sy'n dysgu sgiliau ar lefel ganolraddol ac uwch.

Mae buddiolwyr sy'n awyddus i roi hyfforddiant i'r gweithlu cyflogedig yn ymateb yn gadarnhaol i gyfeiriad polisi newydd cyd-fuddsoddi gan gyflogwyr a nodwyd yng Nghynllun Gweithredu Sgiliau Llywodraeth Cymru ac sy'n cael ei annog gan y Rhaglenni Gweithredol. Mae arian cyfatebol preifat o gyfraniadau arian parod cyflogwyr yn rhan annatod o'r gweithrediadau hyn wrth iddynt gael eu datblygu a'u cymeradwyo.

## Tabl 2: Cynnydd yn erbyn dangosyddion

| Amcan Penodol | Allbynnau | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | | | Dwyrain Cymru | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Targed | Rhagolwg Prosiect | Cyflawnwyd hyd yma | Targed | Rhagolwg Prosiect | Cyflawnwyd hyd yma |
| AP2.1 Cynyddu lefelau sgiliau, gan gynnwys sgiliau sy'n berthnasol i waith, y rhai yn y gweithlu sydd â sgiliau isel os o gwbl | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig heb gymwysterau ffurfiol - Dynion | 14,029 | 3,458 | 137 | 7,799 | 1,651 | - |
| | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig heb gymwysterau ffurfiol - Menywod | 12,771 | 3,423 | 85 | 7,101 | 1,843 | - |
| | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig sydd â chymwysterau hyd at a chan gynnwys addysg uwchradd is - Dynion | 23,870 | 12,911 | 4,599 | 13,296 | 8,530 | 2,088 |
| | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig sydd â chymwysterau hyd at a chan gynnwys addysg uwchradd is - Menywod | 21,730 | 15,034 | 4,349 | 12,104 | 10,237 | 2,146 |
| | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig heb unrhyw gymwysterau ffurfiol sy'n ennill sgiliau hanfodol neu gymhwyster technegol neu benodol i swydd wrth adael - Dynion | 72% | 75% | 40% | 72% | 76% | 0% |
| | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig heb unrhyw gymwysterau ffurfiol sy'n ennill sgiliau hanfodol neu gymhwyster technegol neu benodol i swydd wrth adael - Menywod | 72% | 76% | 45% | 72% | 76% | 0% |
| | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig gyda hyd at ac yn cynnwys addysg uwchradd is sy'n ennill cymhwyster sgiliau hanfodol neu benodol i swydd ar lefel uwchradd is wrth adael - Dynion | 72% | 80% | 1% | 72% | 81% | 0% |
| | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig gyda hyd at ac yn cynnwys addysg uwchradd is sy'n ennill cymhwyster sgiliau hanfodol neu benodol i swydd ar lefel uwchradd is wrth adael - Menywod | 72% | 80% | 3% | 72% | 81% | 0% |

| Amcan Penodol | Allbynnau | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | | | Dwyrain Cymru | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Targed | Rhagolwg Prosiect | Cyflawnwyd hyd yma | Targed | Rhagolwg Prosiect | Cyflawnwyd hyd yma |
| AP2.2 Cynyddu nifer y bobl yn y gweithlu sydd â sgiliau technegol a phenodol i waith ar lefel ganolraddol ac uwch | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig sydd ag addysg uwchradd is (FfCChC 2) - Dynion | 16,070 | 11,298 | 2,983 | 6,438 | 8,272 | 1,613 |
| | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig sydd ag addysg uwchradd is (FfCChC 2) - Menywod | 14,630 | 13,100 | 2,866 | 5,862 | 9,705 | 1,497 |
| | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig sydd ag addysg uwchradd uwch (FfCChC 3) neu uwch - Dynion | 10,731 | 7,227 | 2,335 | 4,292 | 4,773 | 1,395 |
| | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig sydd ag addysg uwchradd uwch (FfCChC 3) neu uwch - Menywod | 9,769 | 7,368 | 5,029 | 3,908 | 4,824 | 3,047 |
| | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig ag addysg uwchradd is (FfCChC 2) sy'n ennill cymhwyster galwedigaethol technegol neu benodol i swydd wrth adael ar lefel uwchradd uwch (FfCChC 3) neu uwch - Dynion | 60% | 79% | 1% | 60% | 80% | 0% |
| | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig ag addysg uwchradd is (FfCChC 2) sy'n ennill cymhwyster galwedigaethol technegol neu benodol i swydd wrth adael ar lefel uwchradd uwch (FfCChC 3) neu uwch - Menywod | 60% | 79% | 1% | 60% | 80% | 0% |
| | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig ag addysg uwchradd uwch (FfCChC 3) neu uwch sy'n ennill cymhwyster galwedigaethol technegol neu benodol i swydd ar lefel uwchradd uwch (FfCChC 3) neu uwch wrth adael - Dynion | 60% | 80% | 2% | 60% | 80% | 0% |
| | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig ag addysg uwchradd uwch (FfCChC 3) neu uwch sy'n ennill cymhwyster galwedigaethol technegol neu benodol i swydd ar lefel uwchradd uwch (FfCChC 3) neu uwch wrth adael - Menywod | 60% | 80% | 1% | 60% | 80% | 0% |

| Amcan Penodol | Allbynnau | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | | | Dwyrain Cymru | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Targed | Rhagolwg Prosiect | Cyflawnwyd hyd yma | Targed | Rhagolwg Prosiect | Cyflawnwyd hyd yma |
| AP2.3 Cynyddu nifer y bobl â graddau neu gymhwyster cyfatebol sy'n cyflawni gweithgareddau ymchwil ac arloesedd ym myd busnes | Cyfranogwyr sydd ag ôl-radd neu gymhwyster cyfwerth - Dynion | 780 | 442 | 19 | n/a | n/a | n/a |
| | Cyfranogwyr sydd ag ôl-radd neu gymhwyster cyfwerth - Menywod | 720 | 368 | 3 | n/a | n/a | n/a |
| | Nifer y Mentrau sy'n cydweithio â darparwyr dysgu | 750 | 542 | 1 | n/a | n/a | n/a |
| | Cyfranogwyr ag ôl-radd neu gymhwyster cyfwerth sy'n ennill cymhwyster wrth adael ar lefel Meistr (FfCChC 7) neu Ddoethuriaeth (FfCChC 8) - Dynion | 63% | 82% | 0% | n/a | n/a | n/a |
| | Cyfranogwyr ag ôl-radd neu gymhwyster cyfwerth sy'n ennill cymhwyster wrth adael ar lefel Meistr (FfCChC 7) neu Ddoethuriaeth (FfCChC 8) - Menywod | 63% | 79% | 0% | n/a | n/a | n/a |
| | Cyfranogwyr â gradd ôl-radd neu gymhwyster cyfwerth sydd mewn cyflogaeth wrth adael - Dynion | 52% | 0% | 0% | n/a | n/a | n/a |
| | Cyfranogwyr â gradd ôl-radd neu gymhwyster cyfwerth sydd mewn cyflogaeth wrth adael - Menywod | 52% | 0% | 0% | n/a | n/a | n/a |
| AP2.4 Gwella sefyllfa menywod yn y gweithlu (AP2.3 Dwyrain Cymru) | Nifer y mentrau micro bach a chanolig a gynorthwyir (gan gynnwys mentrau cydweithredol, mentrau yr economi gymdeithasol) | 800 | 410 | 93 | 300 | 90 | 37 |
| | Cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig | 4,400 | 1,707 | 276 | 1,500 | 500 | 174 |
| | Cyfranogwyr sy'n ennill cymhwyster wrth adael | 75% | 80% | 37% | 73% | 80% | 24% |
| | Mentrau â chymorth sydd wedi mabwysiadu neu wella strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth a systemau monitro | 50% | 80% | 30% | 50% | 87% | 22% |
| | Cyfranogwyr sydd mewn sefyllfa well ar y farchnad wrth adael | 40% | 40% | 0% | 40% | 40% | 0% |

Ffynhonnell: SCEC, 31/10/2016

Yn gyffredinol, mae’r sefyllfa o ran perfformiad ar gyfer y flaenoriaeth hon yn galonogol iawn. Lle ceir bylchau yn yr allbynau a neilltuwyd i fuddiolwyr mae cyllid ar gael o hyd i fynd i’r afael â hwy. Hyd yma, mae dros 34,000 o gyfranogwyr eisoes wedi’u cofrestru gan weithrediadau cymeradwy yn y Flaenoriaeth hon.
*Cynyddu lefelau sgiliau’r rhai sydd â sgiliau isel os o gwbl (So2.1)*: Mae’r rhagolygon yn uchel ledled Cymru, o ystyried y swm cymharol isel a neilltuwyd hyd yma, ac eithrio o ran cyfranogwyr heb unrhyw gymwysterau ffurfiol. Mae rhai gweithrediadau yn nodi bod gweithwyr medr isel yn aml yn dweud bod ganddynt o leiaf ryw fath o gymhwyster (e.e. lefel mynediad neu lefel 1) sy’n golygu eu bod yn cofnodi llai o gyfranogwyr ‘heb gymwysterau’ na’r disgwyl.
*Lefelau sgiliau canolraddol ac uwch (SO2.2):* Yn Nwyrain Cymru disgwylir rhagori ar bob targed, er mai dim ond 63% o’r cyllid sydd wedi cael ei ddyrannu. O ran Gorllewin Cymru a’r Cymoedd mae’r rhagolygon yn unol yn fras â phriodoli targedau pro rata yn seiliedig ar y swm a neilltuwyd hyd yma; er bod y cyfranogwyr yn cynnwys mwy o fenywod na dynion. Yr hyn sy’n galonogol yw bod cyfran y cyfranogwyr y disgwylir iddynt gael canlyniadau yn rhagori ar dargedau’r rhaglen, a ddylai roi hwb i’r canlyniadau allweddol hynny. Mae data ar hawliadau hyd yma yn dangos bod niferoedd calonogol o gyfranogwyr wedi’u cofnodi.
*Gweithgarwch Ymchwil ac Arloesedd (SO2.3 yn rhaglen Gorllewin Cymru a’r Cymoedd yn unig):* Mae nifer y cyfranogwyr a ragwelir yn is na thargedau’r rhaglen y gellid bod wedi’i ddisgwyl ar sail pro rata yn erbyn y swm ariannol a neilltuwyd. Efallai fod hyn yn adlewyrchu natur fwy arloesol yr amcan hwn a diffyg data hanesyddol ar gyfer pennu targedau’r rhaglen. Mae lefel is y cyfranogwyr wedi’i lliniaru i ryw raddau gan y ffaith y disgwylir i gyfran sylweddol uwch o’r cyfranogwyr hynny gyflawni canlyniadau allweddol. Ar sail y dadansoddiad hwn, mae’r canlyniadau dipyn yn agosach mewn termau gwerth absoliwt i’r hyn a ddisgwylir yn y rhaglenni; ond amser a ddengys a fydd modd nodi rhai a all lenwi’r bwlch er mwyn mynd i’r afael ag unrhyw ddiffyg.
*Gwella sefyllfa menywod yn y gweithlu (SO2.4 WWV / SO2.3 EW)*: Mae’r targed ar gyfer y ddwy raglen yn unol yn fras â’r disgwyliadau.

## Blaenoriaeth 3: Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Pobl Ifanc

| Amcan Penodol | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | | | | Dwyrain Cymru | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gweithrediadau | Dyraniad Mynegol | Cymeradwywyd ESF | | Gweithrediadau | Dyraniad Mynegol | Cymeradwywyd ESF | |
| AP3.1: Diweithdra ymhlith ieuenctid | 5 | £107.7m | £50.5m | 47% | 5 | £36.0m | £17.7m | 49% |
| AP3.2: Cyrhaeddiad ac ymgysylltu ieuenctid | 4 | £68.3m | £40.0m | 59% | 3 | £12.0m | £7.8m | 65% |
| AP3.3: STEM | 1 | £10.0m | £1.7m | 17% | n/a | n/a | n/a | n/a |
| AP3.4: Blynyddoedd cynnar | 1 | £9.8m | £4.2m | 42% | n/a | n/a | n/a | n/a |
| **Cyfanswm Blaenoriaeth 3** | **11** | **£195.8m** | **£96.3m** | **49%** | **8** | **£48.0m** | **£25.5m** | **53%** |

Ffynhonnell: SCEC, 31/10/2016

## Cymeradwyaethau ers cyfarfod diwethaf Pwyllgor Monitro'r Rhaglenniwyl

| Gweithrediadau | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | | Dwyrain Cymru | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm y fuddsoddiad | Cymeradwywyd ESF | Cyfanswm y fuddsoddiad | Cymeradwywyd ESF |
| Active Inclusion Youth<br>(Wales Council for Voluntary Action) | | | £4.6m | £1.0m |

Cymeradwywyd £1m arall o gyllid ESF yn rhaglen Dwyrain Cymru ers cyfarfod Pwyllgor Monitro'r Rhaglenni ym mis Medi sy'n golygu bod y swm a neilltuwyd o dan y Flaenoriaeth wedi cyrraedd 49% yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a 53% yn Nwyrain Cymru. Mae'r portffolio o weithrediadau yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â diweithdra a chyrhaeddiad ieuenctid, a materion o ran NEET.

Mae **Cynhwysiant Gweithredol Ieuenctid** gwerth £1.0 miliwn o gyllid ESF, a arweinir gan CGGC ac a gymeradwywyd yn ddiweddar yn ychwanegu at y portffolio drwy gyflwyno prosiectau cynhwysol wedi'u targedu a ddarperir gan y trydydd sector ar y cyfan, gan gynnwys gweithgarwch ymgysylltu'n gynnar a lleoliadau gwaith â chymorth. Mae cynigion pellach, gan gynnwys gweithrediadau rhanbarthol cydweithredol a arweinir gan awdurdodau lleol wrthi'n cael eu datblygu.

Mae WEFO yn gweithio'n agos gyda buddiolwyr a'r rhai sy'n datblygu gweithrediadau o dan y flaenoriaeth hon ochr yn ochr â'r rhai yn y flaenoriaeth sy'n ymwneud â thlodi er mwyn sicrhau y caiff portffolio a rhaglen gweithrediadau cydlynol ac integredig eu datblygu, yn enwedig y rhai sy'n canolbwyntio ar gyflogadwyedd a chanlyniadau cyflogaeth. Mae WEFO yn parhau i gynnal cyfarfodydd â buddiolwyr gweithrediadau i drafod gweithgarwch, eu hannog i gyflawni'n gydweithredol a nodi unrhyw fylchau sy'n dod i'r amlwg neu ddyblygu o ran darpariaeth.

Ers cyfarfod diwethaf Rhaglen Monitro'r Rhaglenni mae WEFO wedi cytuno ar ddull cydweithredol o werthuso gweithgarwch wedi'i gyflawni gan weithrediadau a arweinir gan yr awdurdod lleol o dan Amcan Penodol 2. Caiff hyn ei arwain gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ar ran yr holl weithrediadau yn yr ardal hon.

## Tabl 3: Cynnydd yn erbyn dangosyddion

| Amcan Penodol | Allbynnau | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | | | Dwyrain Cymru | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Targed | Rhagolwg Prosiect | Cyflawnwyd hyd yma | Targed | Rhagolwg Prosiect | Cyflawnwyd hyd yma |
| AP3.1 Lleihau nifer y bobl ifanc 16-24 oed Nad ydynt mewn Cyflogaeth, Addysg na Hyfforddiant (NEET) | Cyfranogwyr NEET (16-24 oed) | 42,700 | 30,684 | 6,434 | 21,200 | 18,272 | 2,790 |
| | Cyfranogwyr NEET (16 - 24 oed) sy'n ennill cymwysterau wrth adael - ag addysg gynradd neu uwchradd is | 20% | 36% | 0% | 20% | 40% | 0% |
| | Cyfranogwyr NEET (16 - 24 oed) sydd mewn addysg/hyfforddiant wrth adael | 17% | 16% | 25% | 17% | 16% | 27% |
| | Cyfranogwyr NEET (16 - 24 oed) sy'n mynd i gyflogaeth wrth adael | 28% | 29% | 11% | 28% | 29% | 13% |
| AP3.2 Lleihau nifer y bobl ifanc rhwng 11 a 24 oed sy'n wynebu risg o ddod yn NEET | Cyfranogwyr sydd mewn Perygl o fod yn NEET (11-24 mlwydd oed) | 49,700 | 16,064 | 265 | 13,000 | 6,236 | 99 |
| | Cyfranogwyr sydd mewn perygl o fod yn NEET (11-24 oed) sy'n ennill cymwysterau wrth adael - ag addysg gynradd (FfCChC 1) neu uwchradd is (FfCChC 2) | 7% | 14% | 0% | 27% | 17% | 0% |
| | Cyfranogwyr sydd mewn perygl o fod yn NEET (11-24 oed) sy'n mynd i addysg/hyfforddiant wrth adael | 19% | 8% | 0% | 18% | 12% | 4% |
| | Cyfranogwyr sydd mewn perygl o fod yn NEET (11-24 oed) sydd â llai o berygl o fod yn NEET wrth adael | - | 58% | 0% | - | 59% | 7% |

| Amcan Penodol | Allbynnau | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | | | Dwyrain Cymru | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Targed** | **Rhagolwg Prosiect** | **Cyflawnwyd hyd yma** | **Targed** | **Rhagolwg Prosiect** | **Cyflawnwyd hyd yma** |
| AP3.3 Cynyddu lefelau cofrestru a chyrhaeddiad pynciau STEM ymhlith pobl ifanc 11-19 oed | Pobl Ifanc 11 -19 oed - Dynion | 8,400 | 2,160 | 489 | n/a | n/a | n/a |
| | Pobl Ifanc 11 -19 oed - Menywod | 15,000 | 2,830 | 759 | n/a | n/a | n/a |
| | Pobl Ifanc 11-19 oed sy'n cwblhau hyfforddiant mewn mathemateg Gwyddoniaeth Peirianneg a Thechnoleg - Dynion | 55% | 63% | 10% | n/a | n/a | n/a |
| | Pobl Ifanc 11-19 oed sy'n cwblhau hyfforddiant mewn mathemateg Gwyddoniaeth Peirianneg a Thechnoleg - Menywod | 55% | 34% | 3% | n/a | n/a | n/a |
| | Cyfranogwyr 11-19 oed sy'n parhau i astudio pwnc Mathemateg Gwyddoniaeth Peirianneg a Thechnoleg ar ôl 16 oed - Dynion | 45% | 16% | 0% | n/a | n/a | n/a |
| | Cyfranogwyr 11-19 oed sy'n parhau i astudio pwnc Mathemateg Gwyddoniaeth Peirianneg a Thechnoleg ar ôl 16 oed - Menywod | 45% | 4% | 0% | n/a | n/a | n/a |

| Amcan Penodol | Allbynnau | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | | | Dwyrain Cymru | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Targed | Rhagolwg Prosiect | Cyflawnwyd hyd yma | Targed | Rhagolwg Prosiect | Cyflawnwyd hyd yma |
| AP3.4 Cynyddu sgiliau'r gweithlu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig o sector y blynyddoedd cynnar a gofal plant - dynion | 300 | 73 | - | n/a | n/a | n/a |
| | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig o sector y blynyddoedd cynnar a gofal plant - menywod | 2,700 | 1,370 | - | n/a | n/a | n/a |
| | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig o sector y blynyddoedd cynnar a gofal plant sy'n ennill cymwysterau wrth adael - Dynion | 77% | 77% | 0% | n/a | n/a | n/a |
| | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig o sector y blynyddoedd cynnar a gofal plant sy'n ennill cymwysterau wrth adael - Menywod | 77% | 76% | 0% | n/a | n/a | n/a |

Ffynhonnell: SCEC, 31/10/2016

Mae’r perfformiad cyffredinol ar gyfer y flaenoriaeth hon yn addawol ar y cyfan gyda thros 10,000 o gyfranogwyr hyd yma.

*Lleihau NEET (SO3.1):* Mae rhagolygon y prosiect yn eithaf uchel o gymharu â’r swm a neilltuwyd, a ddylai roi cyfle i’r gweithrediadau sy’n weddill dargedu meysydd arbenigol a materion penodol. Mae hyn yn adlewyrchu’r ffaith bod y prif weithrediadau allweddol wedi’u cymeradwyo. Er enghraifft, rhagwelir 69% o’r cyfranogwyr a dargedir, ar sail 47% o wariant a neilltuwyd. Mae’r perfformiad hyd yma yn gadarnhaol ar y cyfan ond bydd WEFO yn pwyso ar weithrediadau i ganolbwyntio mwy ar ganlyniadau cyflogaeth.

*Wynebu risg o ddod yn NEET (SO3.2):* Mae hwn yn faes newydd o ymyrryd gyda gweithgarwch mwy arloesol â data hanesyddol prin yn sail i dargedau dangosyddion. Mae’r gweithgarwch isel a gofnodir yn adlewyrchu natur arloesol y broses gyflawni a’r terfynau amser i roi systemau cyflawni ar waith. Yn seiliedig ar asesiad cychwynnol o weithrediadau cymeradwy mae WEFO bellach wedi cynnig targed canlyniad o 50% ar gyfer ‘lleihau’r risg o fod yn NEET’ i’r Comisiwn.

*Astudio pynciau STEM (SO3.3. WWW yn unig):* Mae’r rhagolygon o ran targedau yn gyson â’r hyn y gellid ei ddisgwyl o ystyried lefel y cyllid a neilltuwyd. Rhagwelir y bydd nifer y cyfranogwyr gwryw yn fwy na’r disgwyl, a all awgrymu bod angen targedu mwy o weithgarwch tuag at ferched ifanc.

*Gweithlu gofal plant blynyddoedd cynnar (SO3.4 Gorllewin Cymru a’r Cymoedd yn unig):* Gellir priodoli’r diffyg cyflawniadau hyd yma i’r ffaith bod darparwyr hyfforddiant i roi cymorth i gyfranogwyr wedi cael eu caffael yn hwyr, ond mae hyn wedi’i gwblhau ac mae’r broses gyflawni wedi dechrau bellach. Mae’r rhagolygon yn gyson â’r dyraniad ariannol cymeradwy hyd yma, er bod ychydig mwy o gyfranogwyr benywaidd na’r hyn a nodwyd yn nogfennau’r rhaglen.

## Blaenoriaeth 4: Cymorth Technegol

| | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | | | | Dwyrain Cymru | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gweithrediadau | Dyraniad Mynegol | Cymeradwywyd ESF | | Gweithrediadau | Dyraniad Mynegol | Cymeradwywyd ESF | |
| **Cyfanswm Blaenoriaeth 4** | 5 | £12.8m | £6.9m | 54% | 4 | £3.3m | £1.1m | 33% |

Ffynhonnell: SCEC, 31/10/2016

## Cymeradwyaethau ers cyfarfod diwethaf Pwyllgor Monitro’r Rhaglenniwyl

| Gweithrediadau | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | | Dwyrain Cymru | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm y fuddsoddiad | Cymeradwywyd ESF | Cyfanswm y fuddsoddiad | Cymeradwywyd ESF |
| Mid Wales Regional Engagement Team (Ceredigion County Council) | £0.23m | £0.17m | £0.059m | £0.029m |

Sefydlwyd pedwar Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol i helpu i wella’r ffordd rydym yn cyflwyno ac yn rheoli rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd 2014-2020. Maent wedi’u lleoli yn y gogledd, yn y canolbarth, ym Mae Abertawe ac yn y de-ddwyrain.

Maent yn ychwanegu gwerth at y ffordd y mae WEFO yn cyflwyno ac yn rheoli’r rhaglenni drwy sicrhau y caiff y gwaith hwn ei integreiddio’n rhanbarthol. Maent hefyd yn cyfrannu at y newid tuag at fodel cyflawni mwy strategol gyda fframwaith cliriach ar gyfer blaenoriaethu economaidd drwy sicrhau cysoni rhanbarthol a chydlyniant gweithrediadau. Un o brif swyddogaethau’r timau yw hwyluso’r broses o brawfesur gweithrediadau a gynigir o safbwynt rhanbarthol er mwyn rhoi barn ranbarthol i WEFO ynghylch y graddau y mae’r holl weithrediadau arfaethedig yn gyson â’r strategaethau perthnasol ac ymyriadau a gweithgareddau ehangach ac, ar adegau, hwyluso’r broses o flaenoriaethu rhai gweithrediadau arfaethedig yn rhanbarthol yn unol â chais gan WEFO (er enghraifft, ar gyfer Amcan Penodol 4.4 ERDF). Mae’r timau hefyd yn gweithio gyda’r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol mewn perthynas â phrawfesur o safbwynt rhanbarthol ac ymgysylltu ynglŷn â gweithrediadau ESF.

Mae dau weithrediad ar y cam Cynllunio Busnes, a disgwylir i’r cynigion TA WEFO hyn gael eu cymeradwyo erbyn diwedd mis Tachwedd.

**Adran 1: Rhaglen Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig (WGRC-RDP) Neilltuo cyllid**

Mae'r adran hon yn manylu ar y cynnydd ariannol presennol o dan Raglen WGRC-RDP2014-2020.

Dengys Tabl 1 y gwariant hyd yma, swm Grant yr UE a neilltuwyd o dan Raglen WGRC-RDP2014-2020, ynghyd â Grant yr UE y gellid ei neilltuo o bosibl os bydd y ceisiadau hynny a wahoddwyd o dan gylchoedd Datganiadau o Ddiddordeb a'r ceisiadau llawn sy'n cael eu hasesu yn mynd rhagddynt.

**Tabl 1: Gwariant, neilltuo cyllid a Chynllunio Busnes**

**Tabl 1: Gwariant Neilltuo cyllid & Chynllunio Busnes**

| Gwariant £'m | | Neilltuo cyllid £'m | | Chynllunio Busnes £'m | |
|---|---|---|---|---|---|
| **CYFANSWM** | **EAFRD** | **CYFANSWM** | **EAFRD** | **CYFANSWM** | **EAFRD** |
| £42.97 | £31.80 | £466.66 | £316.47 | £216.89 | £71.28 |

**Diweddariad Cyffredinol o'r Rhaglenni**

Mae WGRC-RDP2014-2020 yn parhau i wneud cynnydd da ers iddo gael ei gymeradwyo ar 28 Mai 2015.

Un o ofynion y Comisiwn Ewropeaidd yw nad yw ceisiadau i Raglen Datblygu Gwledig 2014-2020 yn cael eu dethol ar sail y cyntaf i'r felin. Er mwyn bodloni'r gofyniad hwn bydd cynlluniau o dan WGRC-RDP2014-2020 yn agor ac yn cau ar gyfer ceisiadau'n gyfnodol drwy gydol oes y rhaglen, yn dibynnu ar ddyraniadau ariannol y rhaglen sydd ar gael.

O gynnwys cymeradwyaethau a chylchoedd datganiadau o ddiddordeb mae cyfanswm o £683m wedi ei neilltuo, y mae £387m ohono yn arian yr UE. Mae rhannau o'r rhaglen ar gam mwy datblygedig o ran cyflawni a chymeradwyo nag eraill; dylid disgwyl hyn o ystyried yr amrywiaeth eang o weithgareddau y gellir eu cefnogi drwy'r rhaglen a'r cam y mae'r broses o gyflawni rhaglen wedi'i gyrraedd ar hyn o bryd. O ran y gyfres o gynlluniau amaeth-amgylchedd-hinsawdd Glastir a choedwigaeth, cofnodwyd gwariant o ychydig o dan £42.93m, y mae £31.76m yn arian yr UE. O dan y cynlluniau economaidd-gymdeithasol gwariwyd cyfanswm o £0.04m. Mae hyn yn golygu gwariant cyffredinol o £42.97m ar y Rhaglen gyda £31.80m o EAFRD. Bydd y gwerthoedd hyn yn cynyddu ymhellach wrth i geisiadau sy'n cael eu harfarnu gael eu cymeradwyo.

O ran cynlluniau economaidd-gymdeithasol yn y rhaglen, gwahoddwyd cyfanswm o 250 o ddatganiadau o ddiddordeb llwyddiannus, gyda dyraniad o £81.9m, i gyflwyno cais llawn. Hyd yma, mae 110 o geisiadau wedi dod i law. Mae cyfanswm o 27 o weithrediadau wedi'u cymeradwyo gyda chyfanswm dyraniad o bron £31.1m. Bydd hyn yn cynyddu ymhellach dros y misoedd sydd i ddod o ganlyniad i gyfnodau datganiadau o ddiddordeb diweddar.

Mae nifer o gyfnodau datganiadau o ddiddordeb wedi agor hyd yma, yn y Rhaglen; bydd rhagor yn agor dros y 12 mis nesaf i gynnwys y cynlluniau canlynol:

- Cronfa Datblygu Cymunedau Gwledig o dan Fesur 7 (£3m)
- Glastir - Adfer Coetir o dan Fesur 8.4 (£1m) – i'w gadarnhau 2017
- Grant Cynhyrchu Cynaliadwy o dan Fesur 4.1 (£6m) – i'w gadarnhau 2017

- Grantiau Bach Glastir o dan Fesur 4.4 (£1.5m) – Rhagfyr 2016
- Glastir - Creu Coetir o dan Fesurau 8.1 ac 8.2 (£1.7m) – Mawrth 2017

**Cynnydd dangosyddion**

Ar y cam hwn o gyflawni'r rhaglen, nid oes modd llunio rhagolygon yn erbyn dangosyddion ar gyfer pob Mesur / Maes Canolbwyntio. Darperir gwerthoedd targed cymeradwy[1] yn ôl Maes Canolbwyntio hyd yn oed lle nad yw data rhagolygon ar gael.

Gellir priodoli'r amrywiannau rhwng rhagolygon a ffigurau gwirioneddol a nodir yn erbyn targedau dangosyddion ar gyfer y rhaglen i'r gwahaniaethau yn y ffordd y caiff yr elfennau o'r rhaglen sy'n ymwneud â thir ac agweddau economaidd-gymdeithasol eu cyflawni. Ar gyfer y targedau allbwn nad oes rhagolygon ar eu cyfer eto, dylai data fod ar gael yn ystod y misoedd sydd i ddod, yn sgil canlyniadau a chymeradwyaethau o gyfnodau datganiadau o ddiddordeb. Bydd angen monitro gweithrediadau cymeradwy a chytundebau'n fanwl er mwyn sicrhau y caiff y canlyniadau a ddisgwylir eu sicrhau.

[1] Caiff gwerthoedd targedau eu diwygio unwaith bod addasiad y rhaglen gyntaf wedi'i dderbyn ac wedi'i gymeradwyo gan y Comisiwn Ewropeaidd.

**Adran 2: Cynnydd yn ôl Echel Blaenoriaeth**
**Blaenoriaeth 1: Annog pobl i gyfnewid gwybodaeth ac i arloesi ym maes amaethyddiaeth, coedwigaeth, ac mewn ardaloedd gwledig**
**Tabl 2: Cynnydd yn erbyn dangosyddion**

| Maes Ffocws | Mesur | Allbynnau | Targed | Rhagolwg |
|---|---|---|---|---|
| FA 1(a) Meithrin arloesi a'r sylfaen gwybodaeth mewn ardaloedd gwledig | 1 | Cyfanswm gwariant cyhoeddus (£'m) | £50m | £44.31 |
| | 2 | Cyfanswm gwariant cyhoeddus (£'m) | £13.07m | £11.54 |
| | 16 | Cyfanswm gwariant cyhoeddus (£'m) | £71.8m | £1.69 |
| **A ellid cynnal y gweithgaredd o fewn yr ardal raglennu?** | Dim ond os na fydd gallu'r seilwaith o fewn yr ardal raglennu yn ddigonol neu y byddai'n achosi gormod o faich ar y seilwaith yn yr ardal raglennu honno gan gyfyngu ar ei ddefnydd a'i fynediad y caiff gweithgaredd y tu allan i'r ardal ei ddefnyddio. Mae'n synhwyrol ac yn effeithlon mewn rhai achosion i gynllunio i ddefnyddio seilwaith a gallu mewn ardal raglennu arall. Mae hyn yn unol ag egwyddorion arbenigo deallus lle y dylai buddsoddiadau gael eu seilio ar feysydd arbenigedd/gallu sy'n bodoli eisoes neu sy'n dod i'r amlwg yn gryf yn hytrach na cheisio creu rhywbeth o ddim. Mae hefyd yn adlewyrchu natur gydweithredol yr ymchwil. |
| **Ble y mae'n debygol y cynhelir y gweithgareddau?** | Bydd y gweithgareddau ymchwil a'r gweithgareddau cefnogi ymchwil bob amser yn cael eu cynnal yn yr ardal raglennu gartref lle caiff y buddiannau ymchwil (e.e. dyfarniadau ymchwil a sicrhawyd) eu hawlio hefyd.<br><br>Bydd y gweithgaredd i gynnal, diweddaru neu greu'r seilwaith ymchwil yn cael ei gynnal yn y man lle caiff ei leoli'n ffisegol. Am resymau gallu ac effeithlonrwydd, efallai y bydd angen i weithgareddau |

| | |
|---|---|
| | ymchwil a gweithgareddau cefnogi ymchwil mewn un ardal raglennu ddefnyddio'r cyfleusterau seilwaith ymchwil mewn ardal raglennu arall.<br><br>Os lleolir y cyfleusterau seilwaith ymchwil mewn dwy ardal raglennu efallai y bydd angen iddynt gael eu cysylltu, er cadernid, er mwyn i weithgareddau gael eu cyfnewid rhwng y ddwy ar yr adegau hynny pan fydd galw eithriadol neu pan fydd pethau'n methu. Disgwylir i achlysuron o'r fath fod yn eithriadol ond byddent yn cael eu cofnodi a byddai adroddiadau'n cael eu llunio arnynt. |
| **Asesu sut y bydd buddiannau yn llifo i'r ardal raglennu - <u>ansoddol</u>** | Bydd y buddiannau uniongyrchol a'r canlyniadau o ran dyfarniadau ymchwil a sicrhawyd a lleoliad ymchwilwyr newydd a rhai sy'n bodoli eisoes yn llifo'n unswydd i'r sefydliadau sy'n eu cynnal. Caiff cyfleusterau seilwaith gwell eu cyfrif lle y cânt eu lleoli. |
| **Asesu sut y bydd buddiannau'n llifo i'r ardal raglenni - <u>meintiol</u>** | Ni fydd angen asesiad meintiol o fuddiannau gan y bydd y buddiannau llawn yn llifo'n unswydd i'r ardal raglennu lle y lleolir y gweithgareddau ymchwil a'r gweithgareddau cefnogi ymchwil. |
| **A fydd unrhyw fuddiannau yn llifo i ranbarthau/gwledydd eraill (heblaw sgil-fuddiannau ymylol =<5%)?** | Na fydd.  Bydd y buddiannau uniongyrchol a'r canlyniadau o ran incwm ymchwil a sicrhawyd a lleoliad ymchwilwyr newydd a rhai sy'n bodoli eisoes yn llifo'n unswydd i'r sefydliadau yn y rhanbarth. Caiff cyfleusterau seilwaith gwell eu cyfrif lle y'u lleolir. |
| **Symiau wedi'u dyrannu yn llai na 15% ar lefel blaenoriaeth y rhaglen?** | Ydyn  Hyn i'w fonitro gan WEFO a'i gadarnhau mewn adroddiadau gweithredu blynyddol. |
| **Trefniadau addas ar waith ar gyfer archwiliadau a dilysiadau?** | Oes  Byddai staff Llywodraeth Cymru (WEFO neu'r Tîm Archwilio Cronfeydd Ewropeaidd) yn cynnal unrhyw ymweliadau safle angenrheidiol, gan gynnwys ymweliadau â'r ardal raglennu arall/ardaloedd rhaglennu eraill. |

# PWYLLGOR MONITRO RHAGLENNI CYMRU, CRONFEYDD STRWYTHUROL A BUDDSODDI EWROPEAIDD 2014 – 2020

## Cymhwysedd gweithgareddau a gynhelir y tu allan i'r ardal raglennu

### Mater

1. Mae gweithgareddau a ariennir gan y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd fel arfer ond yn gymwys am gymorth os cânt eu cynnal o fewn yr ardal ddaearyddol a gwmpesir gan y rhaglen y daw'r cyllid ohoni (yr 'ardal raglennu').

2. Mae Rheoliadau'r UE yn darparu rhai eithriadau i'r rheol hon, lle y gellir cynnal gweithgaredd mewn rhanbarthau/gwledydd eraill os bydd angen a lle y caiff y buddiannau eu cyflwyno i'r ardal raglennu.

3. Mae'r papur hwn yn nodi'r gofynion rheoliadol ar gyfer cefnogi gweithgaredd y tu allan i'r ardal raglennu ac yn egluro rôl y PMRh wrth gytuno i gynigion o'r fath.

4. Mae papur **WPMC(15)51-B** yn nodi cytundeb y PMRh i ddefnyddio'r opsiwn hwn ar gyfer rhai mathau o weithgarwch ynni'r môr a ariennir gan ERDF.

### Argymhelliad

5. Papur i'w nodi.

### Cefndir

6. Cyn egluro'r rheolau, mae angen egluro dau ymadrodd ymhellach - 'lleoliad gweithrediad' a 'budd i'r ardal raglennu'.

7. Ystyr 'lleoliad' gweithrediad, prosiect neu weithgarwch yw'r man lle y caiff ei roi ar waith neu lle mae'n digwydd. Felly, ar gyfer buddsoddiadau mewn seilwaith ac asedau ffisegol, y lleoliad yw'r man lle y lleolir yr eitemau hynny. Ar gyfer buddsoddiadau mewn pobl neu fuddsoddiadau anniriaethol fel gweithgaredd ymchwil, y lleolid yw'r man lle mae'r gweithgaredd (yr 'ymyriad') yn digwydd go iawn. Felly, gallai gweithrediad - sydd o bosibl yn cynnwys sawl prosiect a gweithgaredd - gael ei 'leoli' mewn sawl lle gwahanol.

8. Gall gweithgaredd sy'n digwydd mewn rhanbarth/gwlad arall fod 'er budd yr ardal raglennu' sy'n ei ariannu. Wrth ystyried a ddylid cefnogi gweithgaredd o'r fath 'y tu allan i'r ardal', rhaid i awdurdod rheoli'r rhaglen gynnal asesiad o'r buddiannau disgwyliedig er mwyn sicrhau y gellir cyflwyno achos cyfiawn addas i PMRh am gytundeb (gweler pwyntiau 13 i 15 isod). Bydd yr asesiad hwn yn ystyried:

- **Pwy** fydd yn defnyddio/yn cael budd o allbynnau neu ganlyniadau'r gweithgareddau a gynhelir mewn rhanbarth/gwlad arall?
- A fydd y gweithgaredd o fudd i'r ardal raglennu **yn llawn neu ond yn rhannol**, gyda rhai o fuddiannau'r gweithgaredd yn cael eu cyflwyno i ranbarthau eraill? Os bydd rhanbarthau eraill yn cael budd o hyn, dim ond cyfran pro-rata o gostau cymwys y dylid eu codi ar yr ardal raglennu (angen dadansoddiad meintiol)
- A fydd cynnal y gweithgaredd mewn rhanbarth arall yn dal i gefnogi **amcanion penodol** blaenoriaeth y rhaglen neu'n gwanhau **rhesymeg ymyrryd** y rhaglen.

9. Y rheol gyffredinol yw bod yn rhaid i'r holl weithrediadau, a'u prosiectau a'u gweithgareddau cydrannol, gael eu lleoli o fewn yr ardal raglennu sy'n eu hariannu. Mae eithriadau cyfyngedig i'r rheol hon yn bosibl, yn amodol ar reolau penodol i gronfa a nodir ym mhwyntiau 13 i 15 isod.

10. Lle mae'r rheolau penodol i gronfa yn gofyn am gytundeb y PMRh, bydd yr awdurdod rheoli rhaglenni yn rhoi digon o wybodaeth i'r aelodau i allu gwneud penderfyniad hyddysg. Bydd y wybodaeth hon yn cynnwys yr achos busnes dros gefnogi'r gweithgaredd y tu allan i'r ardal, gan gynnwys dadansoddiad meintiol o sut y gellir priodoli'r buddiannau i'r ardal raglennu. Lle y bo'n berthnasol, cyflwynir dadansoddiad meintiol hefyd os bydd buddiannau'n cronni i ranbarthau eraill hefyd ac os cynigir methodoleg pro-rata.

11. Efallai y gofynnir i PMRh gytuno ar weithgaredd y tu allan i'r ardal ar gyfer naill ai:
    - Weithrediad penodol, neu rannau penodol o'r gweithrediad hwnnw; neu
    - Mathau o weithrediadau, neu rannau penodol o weithrediadau o'r fath.

12. Yn ogystal â chytundeb y PMRh, rhaid i awdurdodau'r rhaglenni hefyd ystyried materion ymarferol fel trefniadau ar gyfer archwilio a dilysu.

### Rheolau penodol i gronfa

13. <u>ERDF</u>
    - **Rhaid i PMRh gytuno** ar bob gweithgaredd y tu allan i'r ardal.
    - Rhaid i WEFO sicrhau nad yw'r ERDF a ddyrennir i weithgareddau o'r fath yn fwy na 15% ar lefel pob un o flaenoriaethau'r rhaglen (echel blaenoriaeth).

14. <u>Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD) y Cynllun Datblygu Gwledig (RDP)</u>
    - **Rhaid i PMRh gytuno** ar bob gweithgaredd y tu allan i'r ardal.

- Rhaid i Adran Amaeth, Bwyd a'r Môr Llywodraeth Cymru sicrhau nad yw'r EAFRD a ddyrennir i weithgareddau o'r fath yn fwy na 5% ar lefel y rhaglen.
- Dylai aelodau PMRh nodi na ragwelir y bydd angen i weithgaredd y Cynllun Datblygu Gwledig ddigwydd y tu allan i Gymru (yr ardal raglennu) ac felly mae'n annhebygol iawn y defnyddir y ddarpariaeth reoliadol hon yn ymarferol.

15. ESF
- Gall gweithgaredd gael ei leoli mewn unrhyw ranbarth o fewn yr UE, heb gytundeb y PMRh, os bydd o fudd i unigolion o'r ardal raglennu. Nid oes nenfwd o ran faint o weithgaredd y tu allan i'r ardal y gall pob Rhaglen ei gefnogi. Mae rheolau cymhwysedd WEFO yn egluro sut y tybir bod unigolion ('cyfranogwyr') o ardal raglennu, yn dibynnu ar ble maent yn byw, yn gweithio neu'n astudio a natur cymorth ESF.
- Gallai gweithgareddau gael eu lleoli hefyd y tu allan i'r UE ond rhaid i PMRh gytuno ar hyn. Mae hyn yn codi pan gynhyrchir costau y tu allan i'r UE. Felly, nid yw'r rheol hon yn effeithio ar gostau teithio a chynhaliaeth ar gyfer teithiau y tu allan i'r UE os caiff yr eitemau eu trefnu drwy gwmni yn yr UE. Rhaid i WEFO sicrhau nad yw gweithgaredd o'r fath yn fwy na 3% o werth rhaglen ESF (cyfraniad yr UE ac arian cyfatebol cenedlaethol).

16. Cwestiynau Cyffredin:

***C1. Beth os oes gan y gweithgaredd y tu allan i'r ardal rai buddiannau amherthnasol/dibwys i'r rhanbarth lle y cynhelir y gweithgaredd?***

Lle na ragwelir y bydd sgil-effeithiau o'r fath yn cyfrif am fwy na 5% o'r buddiannau disgwyliedig, gellir eu hanwybyddu a gellir ystyried bod y costau llawn yn gymwys.

***C2. Pryd mae angen i PMRh roi ei gytundeb?***

Cyn i'r awdurdod rheoli rhaglenni (WEFO neu Adran Amaeth, Bwyd a'r Môr Llywodraeth Cymru) ddod i benderfyniad ynghylch cefnogi'r rhan o'r gweithrediad sydd y tu allan i'r ardal. Nes bod y PMRh yn rhoi ei gytundeb, ni all yr ymgeisydd/buddiolwr gael unrhyw sicrwydd y bydd y gweithgaredd y tu allan i'r ardal yn gymwys am gymorth yr UE.

***C3. A oes angen i PMRh archwilio neu ddilysu'r achos busnes a gyflwynir gan yr awdurdod rheoli rhaglenni?***

Nac oes, rôl y PMRh yw archwilio a chraffu ar yr achos a gyflwynir gan yr awdurdod rheoli rhaglenni - gan gynnwys gwneud ceisiadau am eglurhad neu wybodaeth ychwanegol os bydd angen - ond nid oes angen iddo ddilysu gwybodaeth a gyflwynwyd gan awdurdodau'r rhaglenni yn annibynnol. Gall archwilwyr Ewropeaidd a chenedlaethol benderfynu archwilio awdurdodau'r rhaglenni er mwyn sicrhau bod y PMRh wedi cael gwybodaeth gyflawn, amserol a chywir.

***C4. Sut mae'r dull hwn yn cymharu â rheolau 2007-2013?***

Y prif newid yw nad oedd angen i ddull 2007-2013 gael cytundeb y PMRh, a olygai fod archwilwyr yn gwneud dyfarniadau fesul achos ynghylch p'un a oedd cyfiawnhad dros unrhyw weithgaredd y tu allan i'r ardal. Mae dull 2014-2020 yn golygu na fydd archwilwyr yn rhagweld yr achos busnes dros weithgaredd y tu allan i'r ardal ar yr amod bod y PMRh yn fodlon y byddai'r buddiannau disgwyliedig yn llifo i'r ardal raglennu.

***C5. A yw rheolau penodol i gronfa ESF yn golygu y gall gweithgareddau ESF gael eu cynnal unrhyw le yn yr UE?***

Mae gweithgaredd y tu allan i Gymru yn golygu bod angen cymeradwyaeth WEFO ymlaen llaw fel y gellir ystyried ffactorau perthnasol eraill fel gwerth am arian a'r gallu i gynnal archwiliadau a dilysiadau.

Awdur: Dean Langley, Cangen Rheoliadau a Chydymffurfio, WEFO
**Cymeradwywyd gan:** Rob Halford
**Dyddiad:** 15 Mai 2015

| |
|---|
| **Cyfeirnodau Rheoliadol/y CE:** Rheoliad yr UE 1303/2013 erthygl 70; Rheoliad yr UE 1304/2013 erthygl 13(2); a nodyn cyfarwyddyd drafft y Comisiwn EGESIF 15-0009-00. |

**PWYLLGOR MONITRO RHAGLENNI CYMRU, CRONFEYDD STRWYTHUROL A BUDDSODDI EWROPEAIDD 2014 – 2020:**

**Strategaeth Monitro a Gwerthuso - Diweddariad ar Gynnydd**

Mater

1. Diben y papur hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ar gynnydd wrth weithredu'r Strategaeth Monitro a Gwerthuso

**Argymhelliad**

2. Gofynnir i'r aelodau nodi a rhoi sylwadau ar y cynnydd a wnaed.

**Cefndir**

3. Noda Erthygl 110(1) o'r Rheoliadau Darpariaethau Cyffredin y bydd y PMRh yn archwilio cynnydd a wnaed wrth weithredu'r cynllun gweithredu[2] a'r gwaith dilynol a wneir ar ganfyddiadau'r gwerthusiadau. Cymeradwyodd y PMRh y Strategaeth Monitro a Gwerthuso yn y cyfarfod ym mis Medi 2015. Rhoddir diweddariad ar gynnydd ers hynny isod. Mae'r Tîm Strategaeth (a alwyd gynt yn Dîm Ymchwil, Monitro a Gwerthuso (RME) yn arwain at fonitro a gwerthuso cronfeydd ESI.

**Grŵp Cynghori Monitro a Gwerthuso**

4. Yn y Strategaeth Monitro a Gwerthuso, gwnaeth y Tîm Strategaeth ymrwymiad i sefydlu Grŵp Cynghori Monitro a Gwerthuso (MEAG) i gefnogi gwaith y tîm. Sefydlwyd MEAG ym mis Awst 2016 gyda chynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol, CCAUC, CGGC a'r sector preifat. Ym mis Medi 2016, cynhaliwyd cyfarfod cyntaf MEAG lle y cytunodd yr aelodau ar gylch gorchwyl y Grŵp. Trafododd MEAG gynnydd Cyn Ôl-werthusiadau 2007-2013 (ar gyfer y Cronfeydd Strwythurol a'r Cynllun Datblygu Gwledig), Arolwg Cyfranogwyr ESF 2014-2020, Gwerthusiad Seilwaith ERDF a chanllawiau gwerthuso ar gyfer Grwpiau Gweithredu Lleol y Cynllun Datblygu Gwledig. Cynhelir cyfarfod nesaf MEAG ar ddechrau 2017.

**Digwyddiad Gwerthuso**

5. Ar 20 Hydref 2016, cynhaliwyd digwyddiad gwerthuso ar brynhawn Digwyddiad Gwybodaeth Blynyddol WEFO. Diben y digwyddiad oedd cyflwyno canfyddiadau o werthusiadau cronfeydd ESI er mwyn helpu i lywio'r ddarpariaeth yn y dyfodol. Roedd y digwyddiad yn cynnwys cyflwyniadau gan y contractwyr ar gyfer y Cyn Ôl-werthusiadau ar ganfyddiadau drafft a sesiynau trafod ar wahân ar gymorth busnes, cymorth i unigolion ac Echelau

[2] Yng Nghymru, cyfeirir at y cynllun gwerthuso fel y Strategaeth Monitro a Gwerthuso.

3 a 4 y Cynllun Datblygu Gwledig. [3] Roedd y sesiynau hyn yn cynnwys cyflwyniadau ar ganfyddiadau gwerthuso yn y meysydd hyn, gan ganolbwyntio'n benodol ar sut y mae canfyddiadau gwerthuso wedi arwain at newidiadau mewn polisi/rhaglenni.

**Gwerthuso Rhaglenni 2007-2013**

6. Mae'n anochel y bydd gwerthuso'r rhaglenni yn oedi'r broses o gyflwyno'r rhaglenni, o gofio bod angen i weithgarwch ddigwydd cyn y gellir ei werthuso mewn ffordd ddefnyddiol. Am y rheswm hwn, dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Tîm Strategaeth wedi bod yn brysur gyda chyfres olaf y gwerthusiadau ar gyfer Rhaglenni 2007-2013.

7. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys y Tîm Strategaeth yn **cynghori ar werthusiadau lefel prosiect terfynol**, y mae'r mwyafrif ohonynt wedi cael eu cyhoeddi bellach neu maent ar gael ar gais.

8. Mae'r Tîm Strategaeth hefyd wedi bod yn cwblhau'r ddau brif werthusiad ar sail arolwg ar Raglenni ESF ac ERDF, y **Dadansoddiad Cyfunol o Arolygon yr ESF o Bobl a Adawodd a Gwerthusiad Cymorth ERDF ar gyfer Busnesau.**

9. Fel y nodwyd uchod, cyflwynwyd canfyddiadau drafft y **Cyn Ôl-Werthusiadau ar gyfer Cronfeydd Strwythurol 2007-2013 a'r Cynllun Datblygu Gwledig** yn y digwyddiad gwerthuso ar 20 Hydref 2016. Mae'r Tîm Strategaeth wrthi'n gweithio gyda'r contractwyr i gwblhau'r adroddiadau ar gyfer y gwerthusiadau hyn. Rhoddir cyflwyniad ar ganfyddiadau Cyn Ôl-werthusiad y Cynllun Datblygu Gwledig yn y cyfarfod.

10. Mae'r Tîm Strategaeth wedi dechrau datblygu manyleb ar gyfer **gwerthuso buddsoddiad seilwaith** a wnaed o dan Raglenni 2000-2006 a 2007-2013 ERDF. Er i werthusiadau gael eu cynnal ar lawer o brosiectau seilwaith 2007-2013, efallai na fydd rhai o effeithiau posibl y prosiectau hyn (h.y. yn ymwneud â sut y defnyddir y seilwaith) yn amlwg tan yn ddiweddarach felly mae angen gwerthusiad tymor hwy er mwyn asesu a gyflawnwyd yr effeithiau bwriadedig.

11. Mae'r Tîm Strategaeth wrthi'n gweithio gyda'r contractwyr i gwblhau **Gwerthusiad y Cynllun Prosesu a Marchnata Grantiau (PMG).** Mae'r cynllun PMG yn darparu grantiau i BBaChau yn y sectorau ffermio a choedwigaeth, ynghyd â chynhyrchwyr bwyd a diod. Nod y cynllun yw sicrhau bod y busnesau hyn yn ychwanegu gwerth at eu cynhyrchion, neu'n datblygu marchnadoedd ar gyfer cynnyrch, a chreu cyflogaeth. Mae'r gwerthusiad yn asesu'r broses weithredu, y ddarpariaeth barhaus, gwerth ychwanegol, cyweddu strategaethau a chanlyniadau'r Cynllun PMG yng Nghymru. Ceisiodd y gwerthusiad sefydlu p'un ai'r modd y darperir y cynllun ar hyn o bryd yw'r ffordd fwyaf effeithlon o symleiddio'r broses o brosesu a marchnata

[3] Mae Cyn Ôl-werthusiad y Cronfeydd Strwythurol yn cael ei gynnal gan Old Bell 3 ac mae Cyn Ôl-werthusiad y Cynllun Datblygu Gwledig yn cael ei gynnal gan AgraCEAS ac ADAS.

nwyddau'r sector sylfaenol yng Nghymru. Derbyniwyd adroddiad drafft datblygedig gan y contractwyr a chaiff yr adroddiad ei gyhoeddi yn ystod gaeaf 2016.]

**Gwerthuso Rhaglenni 2014-2020**

12. Nodwedd allweddol ar y Strategaeth Monitro a Gwerthuso mewn perthynas â Rhaglenni ESF oedd yr ymrwymiad i gynnal arolygon dilynol rheolaidd o gyfranogwyr o weithrediadau ESF. Ym mis Mehefin 2016, dyfarnodd y Tîm Strategaeth y contract ar gyfer **Arolwg Cyfranogwyr ESF 2014-2020** i dîm prosiect dan arweiniad IFF Research.

13. Caiff yr arolwg ei ddefnyddio i gasglu data ar gyfer y dangosyddion canlyniadau tymor hwy y mae'n rhaid i WEFO gyflwyno adroddiad arnynt i'r Comisiwn Ewropeaidd. Caiff y data a gesglir gan yr arolwg eu rhannu hefyd â gweithrediadau unigol y gallant eu defnyddio yn eu gwerthusiadau. Bydd hyn yn lleihau nifer yr arolygon y bydd yn rhaid i gyfranogwyr gyfrannu atynt, er mwyn gallu cymharu'n well rhwng gweithrediadau, a lleihau costau gwerthuso (yn enwedig ar gyfer gweithrediadau unigol). Er bod yr arolwg ar sail teleffon yn bennaf (sy'n cynrychioli'r gwerth gorau cyffredinol am arian), cynhelir nifer o gyfweliadau wyneb yn wyneb gan fod y dull hwn yn fwy effeithiol ar gyfer casglu data oddi wrth bobl y mae'n anodd eu cyrraedd, grŵp na chafodd ei gynrychioli'n ddigonol yn arolygon 2007-2013. Cynhelir yr arolwg yn bennaf gyda phobl a adawodd eu gweithrediad ESF 12 mis yn gynt. Fodd bynnag, byddwn hefyd yn cynnwys sampl o gyfranogwyr sydd wedi aros ar eu gweithrediad ESF am o leiaf 12 mis er mwyn ein helpu i ddeall sut mae'r math hwn o gymorth hirdymor yn helpu cyfranogwyr. Caiff cyfweliadau dilynol eu casglu gydag is-sampl o bobl a adawodd eu gweithrediad 24 mis yn gynt er mwyn deall effeithiau gweithrediadau tymor hwy ESF yn well. Mae'r Tîm Strategaeth yn gweithio gydag IFF Research ar hyn o bryd i gwblhau'r holiadur. Fel rhan o'r gwaith hwn, mae'r Tîm Strategaeth yn ymgysylltu â staff gweithredu ynghylch cwestiynau 'sy'n benodol i'r gweithrediad' i'w cynnwys yn yr holiadur. Bydd yr arolwg yn mynd allan i'r maes cyn diwedd y flwyddyn.

14. Mewn perthynas â'r Cynllun Datblygu Gwledig, mae'r Tîm Strategaeth wedi comisiynu Astudiaeth Ddichonoldeb Amaeth-yswiriant i weld a oes tystiolaeth o fethiant yn y farchnad wrth ddarparu amaeth-yswiriant i ffermwyr ar gyfer digwyddiadau trychinebus. Os oes tystiolaeth o fethiant yn y farchnad, bydd yr ymchwil yn ystyried a yw'n briodol i Lywodraeth Cymru ddatblygu cynnig amaeth-yswiriant, ac os felly, i ddatblygu cyfres o opsiynau. Cynhaliwyd y cyfarfod cychwynnol ar gyfer yr astudiaeth hon ym mis Medi. Mae'r Tîm Strategaeth ac arweinwyr polisi perthnasol yn adolygu cynllun gwaith y contractwyr, a nodir yn eu Hadroddiad Cychwynnol.

15. Bellach ni chaiff yr **Asesiad Ex Ante ar gyfer Offerynnau Ariannol yn y Cynllun Datblygu Gwledig** ei gynnal gan nad oes unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i gyflawni'r Offerynnau Ariannol o dan WGRC-RDP 2014-2020.

16. Mae'r Tîm Strategaeth yn paratoi i gynnal **Astudiaeth Gwmpasu Cymorth i Ffoaduriaid.** Bydd y prosiect ymchwil hwn yn ystyried y sgiliau y mae

ffoaduriaid yn meddu arnynt a'r sgiliau yr hoffent eu datblygu yng Nghymru. Bydd yr astudiaeth yn ystyried pa gymorth y byddai ei angen ar ffoaduriaid i ddatblygu ac ymarfer eu sgiliau yn y cyd-destun Cymreig, gan gynnwys cymorth menter ac anghenion hyfforddi. Bydd yr ymchwil yn ystyried y cyfleoedd sydd ar gael, gan gynnwys y rhai ym maes amaethyddiaeth ac yn fwy cyffredinol, y cyfleoedd hynny lle y gallai Llywodraeth Cymru gynnig cymorth y tu allan i WGRC-RDP 2014-2020. Caiff arfer gorau ei adolygu fel rhan o'r ymchwil hon, yn ogystal â'r dulliau sydd ar gael i gefnogi ffoaduriaid. Bydd yr astudiaeth hon yn darparu cyfres o argymhellion ymarferol ar roi cymorth i weithwyr mudol. Mae manyleb yr astudiaeth wrthi'n cael ei datblygu. Bydd y Tîm Strategaeth yn ymgynghori â'r rhanddeiliaid allanol perthnasol cyn caffael er mwyn sicrhau bod yr ymchwil hon yn diwallu eu hanghenion o ran tystiolaeth.

17. Gwnaeth gwerthusiadau prosiect terfynol ERDF ac ESF 2007-2013 nifer o argymhellion allweddol a ddatblygwyd ar gyfer **gwerthusiadau lefel weithredu yn Rhaglenni 2014-2020.** Un o'r rhain oedd bod gwerthuswyr allanol yn aml yn cael eu penodi yn rhy hwyr yn y prosiect er mwyn gweithredu'n effeithiol ar eu hargymhellion. Ar gyfer gweithrediadau 2014-2020, mae datblygu cynllun monitro a gwerthuso a phenodi gwerthuswyr allanol yn rhan o'r amodau cyllido. Mae'r Tîm Strategaeth yn gweithio gyda buddiolwyr ar y cam cynllunio busnes i sicrhau bod y gofynion gwerthuso yn ddealladwy. Pan fydd y gweithrediadau wedi'u cymeradwyo, bydd y Tîm Strategaeth yn gweithio gyda buddiolwyr i ddatblygu cynlluniau a manylebau monitro a gwerthuso er mwyn penodi gwerthuswyr allanol yn gynnar yn y broses gyflawni. Gall cymorth ychwanegol, er enghraifft ar Grwpiau Llywio Gwerthusiadau, fod ar gael os oes adnoddau ar gael. Defnyddir canllawiau gan Drysorlys EM ac Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth (GSR) i lywio gwelliant o ran ansawdd.

**Camau Nesaf**

18. Darperir adroddiad pellach ar gynnydd yn y cyfarfod nesaf.

**Swyddog Arweiniol WEFO: Kathryn Helliwell**
**Cymeradwywyd gan: Rob Halford**

# PWYLLGOR MONITRO RHAGLENNI CYMRU, CRONFEYDD STRWYTHUROL A BUDDSODDI EWROPEAIDD 2014 – 2020:

## GWEITHREDU'R THEMA DRAWSBYNCIOL: TRECHU TLODI AC ALLGÁU CYMDEITHASOL

### Mater

1. Mae'r papur hwn yn darparu'r adolygiad blynyddol cyntaf o weithredu thema Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol yng nghronfeydd strwythurol a buddsoddi Ewropeaidd (ESI) 2014-2020 Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) a Chronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF).

### Argymhelliad

2. Gwahoddir aelodau i nodi cynnwys yr adroddiad a rhoi sylwadau yn unol â hynny.

### Cefndir

3. Ewrop 2020 yw Llwyfan yr UE yn erbyn Tlodi, sy'n cefnogi ffocws y Comisiwn ar drechu tlodi ac allgáu cymdeithasol a bydd yn cyflawni targed UE2020, sef bod 20 miliwn yn llai o bobl mewn tlodi. Mae trechu tlodi yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru ac mae Cynllun Gweithredu Trechu Tlodi (TRAP) yn nodi'r targedau a'r cerrig milltir y mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu arnynt i leihau tlodi yng Nghymru.

4. Er mwyn darparu gweithgareddau sy'n cefnogi agenda Comisiwn yr UE ar gyfer trechu tlodi, mae Cymru yn cynnal gweithgaredd cyflawni Blaenoriaeth ESF dynodedig, wedi ei ategu gan gyflwyniad Thema Drawsbynciol 'penodol i Gymru' i annog gweithgaredd ehangach ar draws rhaglenni ESI.

5. Yng Nghymru caiff tlodi ei ddiffinio fel cyflwr hirdymor lle nad oes digon o adnoddau i fforddio bwyd, amodau byw rhesymol nac amwynderau na digon o adnoddau i gymryd rhan mewn gweithgareddau (megis mynediad i ardaloedd deniadol a mannau agored) y mae eraill mewn cymdeithas yn eu cymryd yn ganiataol’. Felly, mae cysylltiad cryf rhwng Allgáu Cymdeithasol neu'r gallu i gyfranogi a materion Tlodi.

6. Gall bron unrhyw un wynebu tlodi ar unrhyw adeg yn eu bywyd, ond mae rhai grwpiau yn wynebu risgiau uwch nag eraill am eu bod yn wynebu rhwystrau mwy i gynyddu eu hincwm, neu am fod ganddynt gostau uwch, neu'r ddau. Rhydd yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, sy'n cyd-fynd â rhaglenni ESI,

asesiad cadarn o anghenion y rhai a all wynebu risg o eithrio, anfantais neu wahaniaethu o ganlyniad i un neu fwy o'r nodweddion a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a'u hanghenion penodol o ran cefnogi mynediad i gyflogaeth a sgiliau. Mae'r 'nodweddion gwarchodedig' hyn yn cynnwys oedran (gan gwmpasu pob grŵp oedran), anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil ac ethnigrwydd, crefydd neu gred, rhyw / rhywedd a chyfeiriadedd rhywiol.

7. Mae'r AEG yn tynnu sylw at y ffaith y gall grwpiau â nodweddion a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 wynebu problemau penodol sy'n effeithio ar eu gallu i gael mynediad i'r farchnad lafur a datblygu ynddi, ac sy'n golygu eu bod yn wynebu mwy o risg o dlodi ac allgáu.

8. Mae Cronfeydd ESI wedi'u hanelu at fynd i'r afael ag achosion tlodi yn hytrach na delio â'r canlyniadau. Rhoi ymyriadau ar waith sy'n canolbwyntio ar leihau tlodi drwy gynyddu lefelau cyflogaeth, yn enwedig ar gyfer grwpiau nas cynrychiolir yn ddigonol a'r rhai sydd bellaf o'r farchnad lafur; cynyddu lefelau sgiliau'r gweithlu a lleihau nifer y bobl heb unrhyw sgiliau neu sgiliau sylfaenol yn unig a chynyddu sgiliau lefel uwch ym maes ymchwil ac arloesedd; gwella cyflogaeth i bobl ifanc a chyrhaeddiad addysgol, a lleihau anghydraddoldebau yn y farchnad lafur ymhlith menywod a grwpiau cydraddoldeb cydnabyddedig.

**Trechu Tlodi drwy Raglenni ESF**

9. Mae rhaglenni ESF yn seiliedig ar dair prif Echel Blaenoriaeth; Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy, Sgiliau ar gyfer Twf a Chyflogaeth a Chyrhaeddiad Pobl Ifanc. Yn unol â Rheoliadau ESF, mae o leiaf 20% o gyllid ESF yng Nghymru wedi ei neilltuo i 'hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, trechu tlodi ac unrhyw wahaniaethu', ac mae wedi ei gyfeirio drwy Flaenoriaeth Trechu Tlodi trwy Gyflogaeth Cynaliadwy. Mae'r Flaenoriaeth hon yn ymwneud yn benodol â lleihau tlodi drwy gynyddu lefelau cyflogaeth, yn enwedig i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, y rhai heb fawr ddim sgiliau os o gwbl, neu gyflwr iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar y gallu i weithio a'r rhai sydd bellaf o'r farchnad lafur; lleihau anghydraddoldebau yn y farchnad lafur ymhlith menywod a grwpiau cydraddoldeb cydnabyddedig.

10. Fodd bynnag, mae'r rhaglen yn cydnabod nad yw'r risg o dlodi, gwahaniaethu nac allgáu wedi eu cyfyngu i unigolion diwaith ac mae camau gweithredu a gyflawnir drwy Flaenoriaethau eraill o fewn y Rhaglenni hefyd yn cyfrannu at leihau tlodi a'r risg o dlodi e.e. mae'r Echel Blaenoriaeth Sgiliau ar gyfer Twf yn cefnogi'r rheini mewn swyddi cyflog isel, oriau isel neu dros dro, ynghyd â gweithio gyda chyflogwyr i feithrin sgiliau arwain a rheoli er mwyn hyrwyddo'r gwaith o ddatblygu'r gweithlu, datblygu cyflogeion a chyfleoedd i weithwyr rhan amser. Yn yr un modd mae Echel Blaenoriaeth Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Pobl Ifanc yn cefnogi camau i gynyddu cyfradd cyflogaeth pobl ifanc a lleihau effeithiau cyfnodau o ddiweithdra neu NEET ar incwm a thlodi yn yr hirdymor.

11. Mae adroddiadau cynnydd ynghylch canlyniadau penodol y Blaenoriaethau hyn yn cael eu cyflwyno'n rheolaidd i'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni.

**Trechu Tlodi drwy Raglenni ERDF**

12. Ffocws Rhaglenni ERDF Cymru yw hyrwyddo twf economaidd a chreu swyddi cynaliadwy ar draws ardal y rhaglen. Bydd llawer o'r swyddi a gaiff eu creu yn berthnasol i newydd-ddyfodiaid a'r sawl sy'n dychwelyd i'r farchnad lafur gan greu cyfleoedd am weithgareddau ESF sy'n targedu grwpiau penodol i ategu buddsoddiadau ERDF. Bydd y rhaglenni'n canolbwyntio ar greu swyddi a thwf sy'n cynnig cyfleoedd cyflogaeth i'r rhai sydd allan o waith; Mynd i'r afael â rhwystrau o ran diffyg cludiant sy'n golygu na all pobl gyrraedd y gwaith; Cefnogi sectorau seiliedig ar wybodaeth allweddol, sy'n gyson ag ymyriadau datblygu sgiliau gan alluogi'r rhai sy'n profi tlodi mewn gwaith i gael swyddi mwy medrus, sy'n talu'n well drwy raglenni ESF; Gweithgaredd adfywio, creu swyddi a gwella cysylltedd mewn ardaloedd daearyddol penodol lle caiff diffygion eu henwi'n aml fel rhwystr i gael gafael ar gyflogaeth a chaiff camau gweithredu i fynd i'r afael ag effeithlonrwydd ynni cartrefi eu targedu'n benodol at y rhai sy'n dioddef tlodi tanwydd.

**Thema Drawsbynciol Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol**

13. Mae'r ymrwymiad i hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a threchu tlodi a adlewyrchir drwy gynnwys Thema Drawsbynciol ychwanegol yn canolbwyntio ar yr amcanion allweddol canlynol:

    - creu swyddi a thwf sy'n cynnig cyfleoedd cyflogaeth i'r rhai sydd allan o waith;
    - ymdrin â'r rhwystrau i gyflogaeth fel sgiliau gwael, diffyg gofal plant neu opsiynau trafnidiaeth cyfyngedig, helpu mwy o bobl i achub ar gyfleoedd cyflogaeth;
    - canolbwyntio ar dwf sy'n gyson ag ymyriadau datblygu sgiliau gan alluogi'r rhai sy'n profi tlodi mewn gwaith i gael gafael ar swyddi mwy medrus, sy'n talu'n well.

14. Fel gyda Datblygiad Cynaliadwy a Chyfleoedd Cyfartal a ThD Prif ffrydio Rhyw, bydd gweithgareddau penodol sydd ynghlwm wrth weithredu'r Thema Drawsbynciol yn sicrhau bod tlodi, ac anghenion y rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf o dlodi a gwahaniaethu, wrth wraidd yr holl weithrediadau. Ymhlith y camau gweithredu mae:

- targedau a bennir ar lefel y gweithgareddau i'w cefnogi gan y rhaglen, gan ddarparu sbardun pwysig i fynd i'r afael â ThD y rhaglen;
- asesiad ThD ar bob cam yn natblygiad y gweithrediadau;
- cyngor arbenigol parhaus i gefnogi gweithrediadau ar y camau datblygu a gweithredu gan roi mewnbwn arbenigol ar gam cynnar yn y broses er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd i hyrwyddo'r ThD;

- cyflwynir rhaglen codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant i staff WEFO a buddiolwyr ar sut i integreiddio'r ThD;
- paratoi canllawiau ar gyfer gweithgareddau ynghyd ag enghreifftiau o astudiaethau achos arfer gorau a fydd yn rhoi gwybodaeth benodol am sut y gall buddiolwyr fynd i'r afael â'r ThD yn eu cynlluniau gweithredu;
- monitro cynnydd yn rheolaidd, gan hwyluso ymyriadau cynnar os bydd angen;
- cyflwyno adroddiadau ar y diweddaraf i'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni a rhanddeiliaid eraill;

**Dangosyddion a Thargedau sy'n cyfrannu at Thema Drawsbynciol Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol**

15. Ceir amrywiaeth o ddangosyddion â thargedau cysylltiedig sy'n cefnogi'r gweithgareddau a nodwyd fel y sbardunau allweddol i drechu achosion tlodi yng Nghymru. Mae gan y dangosyddion hyn gylch gwaith ehangach na'r ThD Trechu Tlodi benodol, maent yn helpu i ddangos y cynnydd sy'n cael ei wneud ar yr agenda trechu tlodi ar gyfer y Rhaglenni yn gyffredinol. Mae **Atodiad 1** yn cynnwys dadansoddiad o'r dangosyddion penodol a'r cynnydd hyd yma.

**Dangosyddion Lefel Prosiect y Thema Drawsbynciol**

16. Yn ogystal â'r dangosyddion a'r targedau ffurfiol, nodwyd dangosyddion ThD lefel prosiect ychwanegol (y cytunwyd arnynt yn PMRh Mehefin 2015) sy'n galluogi WEFO i ddal ystod ehangach o weithgarwch. Mae'r rhain yn cyd-fynd â'r dangosyddion ThD ffurfiol ac fe'u tynnir o naratif y Cynlluniau Busnes a gyflwynwyd gan Weithrediadau a ariennir gan ESI. Mae'r dull hwn, er nad yw'n ychwanegu gwaith ychwanegol at y gweithrediad wrth gwblhau eu cymwysiadau, yn darparu ar gyfer nodi ac adrodd ar arfer da. Mae'r wybodaeth a gynhwysir yn **Atodiad 2**, yn rhoi awgrym o'r math o weithgarwch sy'n cael ei gyflawni ac sy'n cefnogi ThD Trechu Tlodi. Hefyd cynhwysir y gweithgaredd sy'n cefnogi ThD Cyfleoedd Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw oherwydd y synergeddau amlwg rhwng y ddau a gweithgaredd ThD gyffredinol.

**Camau Nesaf**

17. Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu polisïau clir ar draws yr ystod o'i chyfrifoldebau statudol, gan gynnwys Trechu Tlodi, Datblygu Cynaliadwy, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a'r Iaith Gymraeg. Yng nghyd-destun y polisi esblygol hwn, mae'r gwaith o integreiddio ThTau mewn rhaglenni olynol wedi creu darlun o gynnydd a gwelliant cyson. Mae'r agenda wedi cael ei hyrwyddo'n gyson drwy godi ymwybyddiaeth, datblygiadau cadarnhaol mewn deddfwriaeth a pholisi, newidiadau mewn agweddau, gwersi anodd a ddysgwyd a ffocws clir ar bwysigrwydd ThTau gan y Comisiwn Ewropeaidd.

**Drafftiwyd gan: Chriss O'Connell WEFO**
**Cymeradwywyd gan: Rob Halford, RH, WEFO**
**Dyddiad: 16/11/2016**

## Atodiad 1 Dangosyddion Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol

## ERDF

| Blaenoriaeth/ Amcan Penodol | Allbynnau | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | | | Dwyrain Cymru | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Targed | Rhagolwg Prosiect | Cyflawnwyd hyd yma | Targed | Rhagolwg Prosiect | Cyflawnwyd hyd yma |
| AP2.2 | Nifer y mentrau newydd a gynorthwyir | 5,150 | 6,000 | 937 | 2,200 | 4,000 | 438 |
| AP3.2 (AP3.1 Dwyrain Cymru) | Cynlluniau ynni cymunedol | 37 | - | - | 3 | - | - |
| AP3.3 (AP3.2 Dwyrain Cymru) | Nifer yr aelwydydd â dosbarthiad gwell o ran y defnydd o ynni | 5,500 | - | - | 4,200 | - | - |
| AP4.2 (AP4.1 Dwyrain Cymru) | Gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus wedi'u creu neu eu gwella | 2,500,000 | - | - | 420,000 | - | - |
| | Cyfleusterau rhyngfoddol wedi'u creu neu eu gwella | 25 | 6 | - | 5 | - | - |
| AP4.3 (AP4.2 Dwyrain Cymru) | Eiddo ychwanegol â mynediad band eang 30 Mbps o leiaf - Aelwydydd | 28,000 | 69,524 | - | 28,000 | 46,801 | - |

Ffynhonnell: SCEC, 31/10/2016

[1] Ffigurau dros dro yw'r ffigurau cyflawnwyd hyd yma o dan SO2.2 ac maent yn dal i gael eu dilysu

## ESF

## Blaenoriaeth 1: Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy

| Blaenoriaeth/ Amcan Penodol | Allbynnau | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | | | Dwyrain Cymru | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Targed | Rhagolwg Prosiect | Cyflawnwyd hyd yma | Targed | Rhagolwg Prosiect | Cyflawnwyd hyd yma |
| AP1.1 | Nifer y di-waith tymor byr heb sgiliau/sgiliau isel neu gyflwr iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio | 5,999 | - | - | n/a | n/a | n/a |
| | Cyfranogwyr di-waith yn y tymor byr â sgiliau isel neu gyflwr iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio mewn cyflogaeth wrth adael | 33% | 0% | 0% | n/a | n/a | n/a |
| | Cyfranogwyr di-waith yn y tymor byr â sgiliau isel neu gyflwr iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio sy'n ennill cymhwyster wrth adael | 50% | 0% | 0% | n/a | n/a | n/a |
| AP1.2 (AP1.1 Dwyrain Cymru) | Economaidd anweithgar (25 oed a hŷn) nad ydynt mewn addysg na hyfforddiant sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth | 36,000 | 40,006 | 1,513 | 12,700 | 12,752 | 154 |
| | Di-waith tymor hir (25 oed a hŷn) sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth | 10,800 | 15,142 | 499 | 3,800 | 4,966 | 206 |
| | Economaidd anweithgar (25 oed a hŷn) nad ydynt mewn addysg na hyfforddiant sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth sy'n ennill cymhwyster neu ardystiad perthnasol i waith wrth adael | 50% | 29% | 8% | 50% | 25% | 4% |
| | Di-waith yn yr hirdymor (25 oed a hŷn) sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth sy'n ennill cymhwyster neu ardystiad perthnasol i waith wrth adael | 50% | 28% | 10% | 50% | 20% | 1% |
| AP1.3 | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig sydd â chyflwr neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio | 4,000 | 4,232 | 6 | n/a | n/a | n/a |
| | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig â chyflwr iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio sydd mewn sefyllfa well ar y farchnad lafur wrth adael | 50% | 31% | 0% | n/a | n/a | n/a |

Ffynhonnell: SCEC, 31/10/2016

## Blaenoriaeth 2: Sgiliau ar gyfer

| Blaenoriaeth/ Amcan Penodol | Allbynnau | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | | | Dwyrain Cymru | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Targed | Rhagolwg Prosiect | Cyflawnwyd hyd yma | Targed | Rhagolwg Prosiect | Cyflawnwyd hyd yma |
| AP2.1 | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig heb gymwysterau ffurfiol - Dynion | 14,029 | 3,458 | 137 | 7,799 | 1,651 | - |
| | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig heb gymwysterau ffurfiol - Menywod | 12,771 | 3,423 | 85 | 7,101 | 1,843 | - |
| | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig heb unrhyw gymwysterau ffurfiol sy'n ennill sgiliau hanfodol neu gymhwyster technegol neu benodol i swydd wrth adael - Dynion | 72% | 75% | 40% | 72% | 76% | 0% |
| | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig heb unrhyw gymwysterau ffurfiol sy'n ennill sgiliau hanfodol neu gymhwyster technegol neu benodol i swydd wrth adael - Menywod | 72% | 76% | 45% | 72% | 76% | 0% |
| | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig sydd â chymwysterau hyd at a chan gynnwys addysg uwchradd is - Dynion | 23,870 | 12,911 | 4,599 | 13,296 | 8,530 | 2,088 |
| | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig sydd â chymwysterau hyd at a chan gynnwys addysg uwchradd is - Menywod | 21,730 | 15,034 | 4,349 | 12,104 | 10,237 | 2,146 |
| | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig gyda hyd at ac yn cynnwys addysg uwchradd is sy'n ennill cymhwyster sgiliau hanfodol neu benodol i swydd ar lefel uwchradd is wrth adael - Dynion | 72% | 80% | 1% | 72% | 81% | 0% |
| | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig gyda hyd at ac yn cynnwys addysg uwchradd is sy'n ennill cymhwyster sgiliau hanfodol neu benodol i swydd ar lefel uwchradd is wrth adael - Menywod | 72% | 80% | 3% | 72% | 81% | 0% |
| AP2.2 | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig sydd ag addysg uwchradd is (FfCChC 2) - Dynion | 16,070 | 11,298 | 2,983 | 6,438 | 8,272 | 1,613 |
| | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig sydd ag addysg uwchradd is (FfCChC 2) - Menywod | 14,630 | 13,100 | 2,866 | 5,862 | 9,705 | 1,497 |
| | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig ag addysg uwchradd is (FfCChC 2) sy'n ennill cymhwyster galwedigaethol technegol neu benodol i swydd wrth adael ar lefel uwchradd uwch (FfCChC 3) neu uwch - Dynion | 60% | 79% | 1% | 60% | 80% | 0% |
| | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig ag addysg uwchradd is (FfCChC 2) sy'n ennill cymhwyster galwedigaethol technegol neu benodol i swydd wrth adael ar lefel uwchradd uwch (FfCChC 3) neu uwch - Menywod | 60% | 79% | 1% | 60% | 80% | 0% |

Ffynhonnell: SCEC, 31/10/2016


## Blaenoriaeth 3: Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Pobl Ifanc

| Blaenoriaeth/ Amcan Penodol | Allbynnau | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | | | Dwyrain Cymru | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Targed | Rhagolwg Prosiect | Cyflawnwyd hyd yma | Targed | Rhagolwg Prosiect | Cyflawnwyd hyd yma |
| AP3.1 | Cyfranogwyr NEET (16-24 oed) | 42,700 | 30,684 | 6,434 | 21,200 | 18,272 | 2,790 |
| | Cyfranogwyr NEET (16 - 24 oed) sy'n ennill cymwysterau wrth adael - ag addysg gynradd neu uwchradd is | 20% | 36% | 0% | 20% | 40% | 0% |
| | Cyfranogwyr NEET (16 - 24 oed) sydd mewn addysg/hyfforddiant wrth adael | 17% | 16% | 25% | 17% | 16% | 27% |
| | Cyfranogwyr NEET (16 - 24 oed) sy'n mynd i gyflogaeth wrth adael | 28% | 29% | 11% | 28% | 29% | 13% |
| AP3.2 | Cyfranogwyr sydd mewn Perygl o fod yn NEET (11-24 mlwydd oed) | 49,700 | 16,064 | 265 | 13,000 | 6,236 | 99 |
| | Cyfranogwyr sydd mewn perygl o fod yn NEET (11-24 oed) sy'n ennill cymwysterau wrth adael - ag addysg gynradd (FfCChC 1) neu uwchradd is (FfCChC 2) | 7% | 14% | 0% | 27% | 17% | 0% |
| | Cyfranogwyr sydd mewn perygl o fod yn NEET (11-24 oed) sy'n mynd i addysg/hyfforddiant wrth adael | 19% | 8% | 0% | 18% | 12% | 4% |
| AP3.3 | Pobl Ifanc 11 -19 oed - Dynion | 8,400 | 2,160 | 489 | n/a | n/a | n/a |
| | Pobl Ifanc 11 -19 oed - Menywod | 15,000 | 2,830 | 759 | n/a | n/a | n/a |
| | Cyfranogwyr 11-19 oed sy'n parhau i astudio pwnc Mathemateg Gwyddoniaeth Peirianneg a Thechnoleg ar ôl 16 oed - Dynion | 45% | 16% | 0% | n/a | n/a | n/a |
| | Cyfranogwyr 11-19 oed sy'n parhau i astudio pwnc Mathemateg Gwyddoniaeth Peirianneg a Thechnoleg ar ôl 16 oed - Menywod | 45% | 4% | 0% | n/a | n/a | n/a |
| AP3.4 | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig o sector y blynyddoedd cynnar a gofal plant - dynion | 300 | 73 | - | n/a | n/a | n/a |
| | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig o sector y blynyddoedd cynnar a gofal plant - menywod | 2,700 | 1,370 | - | n/a | n/a | n/a |
| | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig o sector y blynyddoedd cynnar a gofal plant sy'n ennill cymwysterau wrth adael - Dynion | 77% | 77% | 0% | n/a | n/a | n/a |
| | Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig o sector y blynyddoedd cynnar a gofal plant sy'n ennill cymwysterau wrth adael - Menywod | 77% | 76% | 0% | n/a | n/a | n/a |


Ffynhonnell: SCEC, 31/10/2016

**Atodiad 2**
Mae'r siartiau canlynol yn dangos y gweithrediadau ymrwymo a wnaed i gyflawni gweithgaredd sy'n cyfrannu at amcanion y thema drawsbynciol. .


**Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol**



## Cyfleoedd cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw




## Themâu Trawsbynciol yn Gyffredinol



**PWYLLGOR MONITRO RHAGLENNI CYMRU AR GYFER Y CRONFEYDD STRWYTHUROL A BUDDSODDI EWROPEAIDD 2014 – 2020:**

**PAPUR AR GYFER PENDERFYNIAD**

**Cronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd – Dosbarthu dyraniad ychwanegol y DU**

## Mater

5. Dyrannwyd €4,814,104 ychwanegol i raglenni Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn dilyn addasiad canol tymor y Comisiwn Ewropeaidd i'r dyraniadau cenedlaethol ar gyfer y polisi Cydlyniant.

## Argymhelliad

6. Gwahoddir Pwyllgor Monitro'r Rhaglen i gytuno ar ddyrannu'r cyllid ychwanegol hwn ynghyd â'r diwygiadau cysylltiedig i raglenni ERDF ac ESF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Gan fod yr addasiadau arfaethedig yn debyg ar gyfer y ddwy raglen, fe'u cyflwynwyd mewn un papur; fodd bynnag dylai aelodau ystyried a chytuno ar y newidiadau arfaethedig i'r ddwy raglen ar wahân.

## Cefndir

7. Fel rhan o'r addasiad canol tymor mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi ailgyfrifo dyraniadau'r Gronfa Strwythurol ar sail y data ystadegol mwyaf diweddar, fel y darparwyd ar ei gyfer yn y Fframwaith Ariannol Amlflwydd ar gyfer 2014-2020 ac fel y nodwyd yn Erthygl 92(3) o'r Rheoliad Darpariaethau Cyffredin.

8. O ganlyniad, dyrannwyd €58,005,958 ychwanegol i'r DU ar gyfer y cyfnod 2017-2020. Mae hyn yn cynnwys €6,323,391 ar gyfer rhanbarthau llai datblygedig (megis Gorllewin Cymru a'r Cymoedd) a €51,682,567 ar gyfer rhanbarthau trawsnewid. Dim ond o dan y categori llai datblygedig y bydd Cymru yn elwa, oherwydd nad oes unrhyw ranbarthau trawsnewid ac ni fydd y rhanbarthau mwy datblygedig (megis Dwyrain Cymru) yn derbyn unrhyw ddyraniad ychwanegol.

9. Caiff y dyraniad ychwanegol ei rannu rhwng Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Chernyw, sef yr unig 'ranbarth llai datblygedig' arall yn y DU, ar yr un sail â'r dyraniadau gwreiddiol. Yn unol â hynny bydd Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn derbyn €4,814,104 (76%) a bydd Cernyw yn derbyn €1,509,287 (24%) o'r dyraniad ychwanegol.

10. Wrth ddyrannu'r cronfeydd ychwanegol hyn mae'n rhaid i WEFO barchu gofynion crynodiad thematig amrywiol y Comisiwn Ewropeaidd. Ymhlith y rhain mae'r gofyniad i ddyrannu o leiaf cymaint o ESF yn 2014-2020 â 2007-2013 (cyfanswm lleiaf o 45.9% o'r holl Gronfeydd Strwythurol a ddyrennir i'r ESF ar draws y DU). Mae WEFO wedi cytuno â Llywodraeth y DU ibarchu hyn, a fydd yn arwain at €2,214,488 ychwanegol ar gyfer ESF a €2,599,616 ar gyfer ERDF.

11. Yn seiliedig ar lefelau ymrwymiad cyfredol a phosibl argymhellir bod y symiauychwanegol yn cael eu cyfeirio at y blaenoriaethau canlynol o fewn y rhaglenni ERDF ac ESF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd:

- **ERDF Blaenoriaeth 1 Ymchwil ac Arloesedd** (*Amcan Thematig 1– Atgyfnerthu ymchwil, datblygiad technolegol ac arloesedd)*
- **ESF Blaenoriaeth 2 Sgiliau** *(Amcan Thematig 1 – Buddsoddi mewn addysg, hyfforddiant a hyfforddiant galwedigaethol ar gyfer sgiliau a dysgu gydol oes)*

12. Bydd yr addasiadau hyn hefyd yn gofyn am newidiadau i Gytundeb Partneriaeth y DU..

***Addasiadau arfaethedig eraill i Raglenni 2014-2020***

13. Wrth inni gyrraedd diwedd trydedd flwyddyn rhaglenni Cronfeydd Strwythurol 2014-2020 mae WEFO yn cynnal adolygiad o'r broses gyflawni hyd yma a'r cynlluniau disgwyliedig sydd ar y gweill er mwyn nodi'r angen am addasiadau posibl i Raglenni Gweithredol Cymru. Mae hyn yn cynnwys adolygiad o ddangosyddion ar draws y Rhaglenni ynghyd ag opsiynau ar gyfer ailddyrannu cyllid i rannau eraill o'r Rhaglen lle mae'r galw'n uwch.

14. Caiff canlyniadau'r adolygiad hwn, a allai arwain at addasiadau mwy sylweddol i'r Rhaglenni, eu cadarnhau yn gynnar y flwyddyn nesaf, a chânt eu cyflwyno i Bwyllgor Monitro'r Rhaglen er cytundeb.

**Rôl Pwyllgor Monitro'r Rhaglen wrth Fonitro Cynnydd**

15. Yn unol ag Erthygl 110 o Reoliad yr UE 1303/2013, mae gofyniad i Bwyllgor Monitro'r Rhaglen archwilio a chymeradwyo unrhyw gynnig i ddiwygio'r Rhaglenni Gweithredol a gynigir gan yr Awdurdod Rheoli.

**Camau Nesaf**

16. Yn amodol ar gytundeb gan Bwyllgor Monitro'r Rhaglen, caiff tablau ariannol y priod Raglenni Gweithredu eu diweddaru'n unol â hynny a'u trosglwyddo i'r Comisiwn Ewropeaidd. Bydd hyn yn caniatáu i Lywodraeth y DU wneud diwygiadau angenrheidiol i Gytundeb Partneriaeth y DU, a chyflwyno cynigion ar gyfer dyrannu'r cronfeydd ychwanegol hyn cyn gynted â phosibl.

**Arweinydd WEFO: Jon Jones**
**Cymeradwywyd gan: Rob Halford**
**Dyddiad: 28 Tachwedd 2016**